AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI

DATGANIAD O GYFRIFON

AR GYFER Y FLWYDDYN YN GORFFEN 31AIN MAWRTH 2010

AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI

DATGANIAD O GYFRIFON 2009/10

MYNEGAI

	Tudalen(nau)
Rhagair Esboniadol	3-8
Datganiad o Bolisïau Cyfrifyddu	9-15
Y Datganiadau Cyfrifyddu:	
- Cyfrif Incwm a Gwariant	16-17
- Datganiad o'r Symudiad ar Falans Cronfa'r Awdurdod	18
- Datganiad o Gyfanswm Enillion a Cholledion Cydnabyddedig (STRGL)	19
- Mantolen	20
- Datganiad Llif Arian	21
Nodiadau i'r Cyfrifon	22-43
Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad o Gyfrifon	44
Adroddiad yr Archwilydd	45-46
Datganiad ynghylch y System o Reolaeth Fewnol	47-55
Rhestr Termau	56

RHAGAIR ESBONIADOL

1. CYFLWYNIAD

Mae'r rhagair yn darparu esboniad cryno ynghylch y materion mwy arwyddocaol yr adroddwyd arnynt yn y cyfrifon ac mae'n anelu at ychwanegu a chynorthwyo i ddehongli'r datganiadau cyfrifyddu a amlinellir ar dudalennau 16 i 21 ac sy'n cynnwys :-

- Y **Cyfrif Incwm a Gwariant** sy'n dangos crynodeb o'r adnoddau a gynhyrchir ac a ddefnyddir gan yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn.
- Mae'r **Datganiad o Symudiad ar Falans Cronfa Gyffredinol yr Awdurdod** yn gysoniad sy'n dangos sut mae'r balans o adnoddau a gynhyrchwyd/ defnyddiwyd yn ystod y flwyddyn yn cysylltu â'r gofynion statudol ar gyfer cynyddu Grant y Parc Cenedlaethol.
- **Datganiad o Gyfanswm Enillion a Cholledion Cydnabyddedig (STRGL) –** yn dangos sut mae'r symudiad mewn gwerth net yn y Fantolen yn cael ei ddynodi i'r gwarged/diffyg Cyfrif Incwm a Gwariant ac i golledion ac enillion eraill sydd heb eu gwireddu.
- **Mantolen** yn nodi sefyllfa ariannol yr Awdurdod ar 31ain Mawrth 2010.
- Y **Datganiad Llif Arian** sy'n crynhoi'r mewnlifiadau ac all-lifau o arian sy'n deillio o drafodion i bwrpasau refeniw a chyfalaf.

Cefnogir y cyfrifon gan Ddatganiad o Bolisïau Cyfrifyddu a nodiadau esboniadol.

2. SEFYDLIAD AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI

O dan ddarpariaeth Adran 63 o Ddeddf Amgylchedd 1995 a Gorchymyn Awdurdodau Parc Cenedlaethol (Cymru) 1995, sefydlodd yr Ysgrifennydd Gwladol Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ar 23ain Tachwedd 1995.

Mae ganddo'r pwrpasau canlynol, fel y diffinnir hwy gan y Ddeddf:

- I warchod a gwella prydferthwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol; ac
- I hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer dealltwriaeth a mwynhad rhinweddau arbennig y Parc (Cenedlaethol) gan y cyhoedd.

Mae gan yr Awdurdod gyfrifoldeb ar gyfer cynllunio, gwarchod, rheolaeth cefn gwlad, mynediad a hamdden. Mae gwasanaethau megis ysgolion, priffyrdd, gwasanaethau cymdeithasol a dyletswyddau eraill Awdurdod Lleol yn cael eu cyflawni gan yr Awdurdod Unedol lleol.

Mae'r Ddeddf yn mynd ymlaen i nodi fod y Parc Cenedlaethol, wrth ddilyn pwrpasau Parc Cenedlaethol, yn ceisio meithrin lles economaidd a chymdeithasol y cymunedau lleol o fewn ei derfynau, ac y bydd i'r pwrpas hwnnw'n cydweithredu gydag Awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus y mae eu swyddogaethau'n cynnwys hybu datblygiad economaidd a chymdeithasol yn ardal y Parc.

Mae'r Awdurdod yn Awdurdod Cynllunio Lleol o dan Ddeddf Amgylchedd 1995 ar gyfer y cyfan o'r Parc Cenedlaethol, ac mae'n gyfrifol am gynhyrchu'r Cynllun Datblygu Lleol a phenderfynu ar geisiadau cynllunio.

Mae'r Parc Cenedlaethol yn cynnwys 213,200 hectar o gefn gwlad amrywiol sy'n cynnwys mynyddoedd, rhostir, coetir ac arfordir. Mae tua 26,000 o bobl yn byw yn y Parc Cenedlaethol, sy'n derbyn amcangyfrif o 10.5 miliwn o ddiwrnodiau ymwelwyr bob blwyddyn.

Mae oddeutu 65% o drigolion y Parc Cenedlaethol yn siarad Cymraeg.

3. GWARIANT REFENIW CYMERADWY

Bob blwyddyn mae'n ofynnol ar i Awdurdod y Parc Cenedlaethol gyflwyno cais i Lywodraeth Cynulliad Cymru am ariannu refeniw. Wedi ei seilio ar y cais, ac mewn ymgynghoriad â Chyngor Cefn Gwlad Cymru, mae'r Cynulliad yn penderfynu ar Grant y Parc Cenedlaethol Grant (y Grant) am y flwyddyn sydd i ddod.

Wrth bennu maint y Grant, mae'r Cynulliad hefyd yn penderfynu, yn unol â Rheoliadau Awdurdodau Parc Cenedlaethol (Ardollau)(Cymru) 1995 fel y'u diwygiwyd, y lleiafswm y gellir ei godi gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol am y flwyddyn ariannol trwy ardollau i'w oddef gan y Cynghorau cyfansoddol (awdurdodau bilio).

Mae'r Grant yn cynrychioli 75% o'r cyfanswm gwariant refeniw net yr ystyrir yn briodol gan y Cynulliad i'r Parc Cenedlaethol, tra bod y 25% sy'n weddill yn cael ei godi trwy ardollau. Mae'r gymhariaeth o'r gwariant y cyllidebwyd amdano gyda'r gwariant gwirioneddol am 2009/10 i'w gweld isod:

CYFRIF REFENIW 2009/10

	Cyllideb Ddiwygiedig 2009/2010	Gwirioneddol 2009/2010	Amrywiad
	(£)	(£)	(£)
Cadwraeth ac Amgylchedd Naturiol	696,821	669,607	27,214
Cadwraeth ac Amgylchedd Ddiwylliannol	404,751	356,289	48,462
Rheolaeth Hamdden a Thrafnidiaeth a Chludiant	279,181	210,699	68,482
Dealltwriaeth	1,539,061	1,509,848	29,213
Wardeiniaid, Gweithwyr Stad a Gwirfoddolwyr	1,173,358	1,125,354	48,004
Rheolaeth Ddatblygu	398,881	400,160	- 1,279
Cynllunio Ymlaen a Chymunedau	558,985	526,774	32,211
Corfforaethol a Democrataidd	832,749	741,748	91,001
COSTAU NET GWASANAETHAU	**5,883,787**	**5,540,479**	**343,308**
Llog enillwyd		- 34,381	
Costau llog pensiwn a dychweliad		272,000	
GWARIANT GWEITHREDU NET		**5,778,098**	
Eitemau debyd/ credyd i Falans Cronfa'r Awdurdod		171,286	
		5,949,384	
CYLLIDWYD O			
Grant Parc Cenedlaethol		- 4,462,038	
Ardollau i Gynghorau Cyfansoddol		- 1,487,346	
		- 5,949,384	

4. GWARIANT REFENIW 2009/10

Cyrhaeddir gwariant net yr Awdurdod ar ôl didynnu o'r gwariant gros ffioedd a chostau, grantiau gwasanaeth benodol a gwneud didyniadau amrywiol eraill fel y manylir arnynt yn y Cyfrif Incwm a Gwariant ar dudalennau 16-17.

Mae'r amrywiant ar y Cyfrif Refeniw 2009/10 o £343,308 ynghyd â'r:

- Llog a enillwyd ar falansau o £11,839 dros y gyllideb ddiwygiedig,
- Incwm llog o'r les cyllid o £4,746 ,
- Cyfraniad refeniw i falans gwariant cyfalaf o £75,700 (cyn trosglwyddiadau o ac i gronfeydd wrth gefn) o dan y gyllideb, a
- throsglwyddiadau o gronfeydd wrth gefn o £55,321 ynglyn â chostau Hafod Eryri

Yn cysoni i £490,914 sy'n cynnwys

- Arian llithriant o £182,557 wedi ei gario 'mlaen o'r gyllideb 2009/10 i flwyddyn ariannol 2010/11,
- Balans MTT Dolgellau o £85,901 yn cael ei drosglwyddo i gronfa wrth gefn,

- Cymynrodd o £30,000 yn cael ei drosglwyddo i gronfa wrth gefn, a'r
- Gweddill o £192,456 a drosglwyddwyd i'r gronfa wrth gefn risgiau penodol

5. CRONFA DATBLYGIAD CYNALIADWY

Daeth grant ychwanegol ar gael i'r Awdurdod gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 2009/10 o'r Gronfa Datblygiad Cynaliadwy (SDF). Pwrpas y grant yw caniatáu i'r Awdurdod gefnogi prosiectau partneriaeth sy'n datblygu ac arbrofi gyda ffyrdd o sicrhau ffordd o fyw mwy cynaliadwy yn Eryri. Yn ystod y flwyddyn roedd y gwariant o'r cynllun a gefnogir â grant, a hybir yn lleol fel Cronfa Arbrofol Eryri, yn £220,262 (2008/09: £219,237).

6. ASEDAU MATEROL A ENILLWYD A'R YMRWYMIADAU A GAFWYD

Prynwyd 2 gerbyd ar gyfer Plas Tan y Bwlch (Cludwr Pobl) a'r Gwasanaeth Wardeiniaid, ac eitemau yn gysylltiedig â'r rhaglen adnewyddu T.G. blynyddol.. Ni chaffaelwyd unrhyw rwymedigaethau sylweddol yn ystod blwyddyn ariannol 2009/10 ac eithrio'r ymrwymiadau cyfalaf hynny y cyfeiriwyd atynt yn nodyn 13 i'r Datganiadau Ariannol.

7. RHWYMEDIGAETH BENSIWN

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn aelod o Gronfa Bensiwn Gwynedd. Mae'r cyfrifon yn ymgorffori'n llawn ofynion Safon Adrodd Ariannol 17 (FRS 17).

Mae'r polisi'n adlewyrchu'r ymrwymiad yn y tymor hir i gynyddu cyfraniadau i wneud yn iawn am unrhyw ddiffyg mewn asedau net priodoledig yn y gronfa bensiwn.

Mae'r rhwymedigaeth bensiwn net yn y Fantolen yn lleihau gwerth net yr Awdurdod o £10.027M ar 31ain Mawrth 2010.

8. COST NEU GREDYD ANGHYFFREDIN YN Y CYFRIFON

Cafodd adeilad a thir Hafod Eryri ei brisio ar £500,000 gan Swyddfa'r Prisiwr Dosbarth yn 2009/10. Mae'r amhariad cyfalaf ar brisiant o £7,283,748 a'r addasiad grant at i lawr o £7,543,502 yn gadael incwm grant net o £259,755 a gaiff ei leihau gan gostau "refeniw" pellach yn 2009/10 i'r £204,632 yn y Cyfrif Incwm a Gwariant. Mae'r ffigwr incwm grant net o £259,755 yn bodoli oherwydd na chynhwyswyd rhai costau cychwynnol penodol yn y gost "ased yn cael ei adeiladu" a gofnodwyd yn flaenorol yn y Fantolen.

Yn ystod 2009/10 cafodd ased ei ddi-gydnabod o'r fantolen gan ei fod wedi ei gynnwys mewn camgymeriad yn y prisiant eiddo 2006/07. Arweiniodd hyn at dâl amhariad cyfalaf o £145,000 yn erbyn Cyfleusterau Ymwelwyr yn y Cyfrif Incwm a Gwariant.

9. NEWID MEWN POLISÏAU CYFRIFYDDU

Nid oes newidiadau mewn polisïau cyfrifyddu ar gyfer y Datganiad Cyfrifon 2009/10.

10. DARPARIAETHAU A CHRONFEYDD WRTH GEFN

Adolygwyd a chymeradwywyd y targed Cronfa Refeniw Wrth Gefn Gyffredinol o £400,000 gan yr Awdurdod ar 9ed Rhagfyr 2009 ac mae'n cynrychioli dros 5% o'r gwariant refeniw gros am 2009/10 ar ôl caniatáu ar gyfer tâl amhariad cyfalaf Hafod Eryri.

Yn ychwanegol, roedd gan yr Awdurdod Gronfeydd a Chronfeydd Wrth Gefn penodol eraill gyda chyfanswm o £2,272,597 a manylir ar y rhain yn nodyn 25 o'r datganiadau ariannol.

11. GWARIANT CYFALAF 2009/10

Gwariant cyfalaf yw gwariant ar feddiannu ased sefydlog, neu wariant sy'n ychwanegu at werth ased sefydlog bresennol, nid ei gynnal yn unig.

Roedd gwariant cyfalaf yn ystod y flwyddyn £437,557. Dangosir manylion ynghylch y gwariant ym mhob maes gwasanaeth yn nodyn 12. Ariannwyd y gwariant gan grantiau a chyfraniadau oddi wrth gyrff eraill o £187,088 ac ariannu refeniw uniongyrchol o £250,469.

Mae adeilad Hafod Eryri bellach wedi'i gwblhau a'i gynnwys yn adran "Tir ac Adeiladau" y fantolen. Adroddwyd arno'n flaenorol fel "Ased a oedd yn cael ei adeiladu". Mae'r £102,745 yr adroddir arno yn awr fel "ased sy'n cael ei adeiladu" yn gysylltiedig â'r cynllun hydro-electrig ym Mhlas Tan y Bwlch ac ailwampio adeilad Pen y Pass.

Mae'r holl wariant cyfalaf cynlluniedig (nodyn 13) yn cael ei ariannu o refeniw, grantiau allanol ac o bosib benthyciad di-log yng nghyswllt y cynllun hydro-electrig.

12. ARIANNU CYFALAF

Mae holl wariant cyfalaf yr Awdurdod, ers ei sefydlu ar 23ain Tachwedd 1995, wedi ei ariannu trwy grantiau cyfalaf a chyfraniadau oddi wrth y Llywodraeth, y Gymuned Ewropeaidd a ffynonellau eraill o grantiau, o dderbyniadau cyfalaf a gymhwysir ac o ffynonellau refeniw'r Awdurdod.

Ar 31 Mawrth 2010 nid oedd gan yr Awdurdod unrhyw ddyledion ac felly bydd yn parhau i gael ei ystyried yn awdurdod diddyled i ddibenion rheoli'r trysorlys.

13. AILBRISIO ASEDAU

Ailbrisiwyd tir ac eiddo'r Awdurdod yn ystod 2006/07 gan briswyr cymwys annibynnol. Heblaw am asedau Cymunedol sy'n cael eu dal ac sy'n awr yn cael eu prisio ar gost hanesyddol, mae'r prisiant diwygiedig ac oes ddefnyddiol amcangyfrifiedig ddiwygiedig asedau wedi eu cymhwyso i'r gwerthoedd ased perthnasol a gofnodir yn natganiadau cyfrifon yr Awdurdod. Prisiwyd adeilad Hafod Eryri gan Wasanaeth y Prisiwr Dosbarth ym Mai 2009.

14. GWYBODAETH BELLACH

Mae gwybodaeth bellach ynghylch y Datganiad Cyfrifon hwn ar gael oddi wrth:

Emyr Roberts
Pennaeth Cyllid
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Swyddfeydd y Parc Cenedlaethol
Penrhyndeudraeth
Gwynedd
LL48 6LF
Ffôn: 01766 772 225
E-bost: emyr.roberts@eryri-npa.gov.uk

DATGANIAD O BOLISÏAU CYFRIFYDDU

1. EGWYDDORION CYFFREDINOL

Mae'r cyfrifon wedi eu paratoi'n unol â Chod Ymddygiad ar Gyfrifyddu Llywodraeth Leol yn y DU - Datganiad o Ymarfer Argymelledig 2009 (SORP) a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifo (CIPFA).

Mae'r Cod Ymddygiad yn ei gwneud yn ofynnol i bolisïau cyfrifyddu gael eu cymhwyso'n gyson. Y gofyniad pwysicaf yw bod y Datganiadau Cyfrifon yn 'cyflwyno barn gywir a theg' o berfformiad ariannol a sefyllfa'r Awdurdod.

2. CYSYNIADAU CYFRIFYDDU

Mae'r cyfrifon wedi eu paratoi'n unol â'r egwyddorion a chysyniadau cyfrifyddu hanfodol (a threiddiol) canlynol:

- Perthnasedd
- Dibynadwyedd
- Cymaroldeb
- Dealladwy
- Materoldeb
- Croniadau
- Busnes Gweithredol
- Uchafiaeth gofynion deddfwriaethol

Mae'r egwyddorion a chysyniadau hyn wedi eu defnyddio wrth ddethol a chymhwyso polisïau cyfrifyddu a thechnegau amcangyfrif ac wrth weithredu barn broffesiynol.

3. Y SAIL I GYNNWYS DYLEDWYR A CHREDYDWYR

Mae cyfrifon refeniw a chyfalaf yr Awdurdod yn cael eu cynnal ar sail croniadau. Mae'r holl symiau sy'n ddyledus i'r Awdurdod yn cael eu gosod yn y cyfrifon ar yr amser maent yn ddyledus.

Y Dyledwyr sy'n ymddangos yn y Fantolen yw balansau'r symiau sy'n ddyledus ar 31ain Mawrth 2010.

Y Credydwyr yw'r symiau sydd wedi eu gosod yn erbyn y cyfrifon am nwyddau a gwasanaethau a ddefnyddiwyd neu a gafwyd, ond nad oedd yr anfonebau wedi eu talu ar 31ain Mawrth 2010.

4. RHWYMEDIGAETHAU AMODOL

Nid yw Asedau a Rhwymedigaethau Amodol yn cael eu cydnabod o fewn y Datganiad Ariannol, ond byddant yn cael eu datgelu drwy nodyn. Bydd y nodyn, pan fo angen, yn dynodi natur yr ased neu rwymedigaeth ac amcangyfrif o'i effaith a'i amseru ariannol.

5. GWEITHREDIADAU A GAFFAELWYD NEU A DERFYNWYD

Nid oes unrhyw eitemau o'r fath yn berthnasol i gyfrifon 2009/10.

6. GWARIANT REFENIW A ARIENNIR O GYFALAF O DAN STATUD

Gall gwariant a wneir yn ystod y flwyddyn gael ei gyfalafu o dan ddarpariaethau statudol ond nad yw'n arwain at greu asedau sefydlog gael ei godi fel gwariant i'r cyfrif refeniw gwasanaeth priodol yn ystod y flwyddyn. Pan fo'r Awdurdod wedi penderfynu cwrdd â chost y gwariant hwn o adnoddau cyfalaf presennol neu trwy fenthyca, yna mae trosglwyddiad i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yn gwrthdroi'r symiau a godwyd yn y Datganiad Symudiad ar y Balans Cronfa Cyffredinol.

7. EITEMAU EITHRIADOL, EITEMAU ANGHYFFREDIN AC ADDASIADAU BLWYDDYN FLAENOROL

Mae cyfrifon 2009/10 yn cynnwys dwy eitem o natur eithriadol fel y nodir yn y rhagair esboniadol, h.y.

- Tâl amhariad cyfalaf Hafod Eryri a'r addasiad grant cyfalaf at i lawr cysylltiedig.
- Di-gydnabod ased a gynhwyswyd mewn camgymeriad ar y fantolen.

Nid oes eitemau anghyffredin nac addasiadau blwyddyn flaenorol.

8. ASEDAU SEFYDLOG

Cydnabyddiaeth: mae gwariant ar gaffael, creu neu wella asedau sefydlog diriaethol yn cael ei gyfalafu ar sail croniadau, cyn belled â'i fod yn cynhyrchu buddiannau i'r Awdurdod a'r gwasanaethau a ddarperir ganddo am ragor nag un flwyddyn ariannol. Mae gwariant sy'n sicrhau ond nid ymestyn y safonau a aseswyd yn flaenorol o berfformiad ased (ee trwsio a chynnal a chadw) yn cael ei godi ar refeniw fel mae'n digwydd.

Mesur: caiff asedau eu mesur yn y lle cyntaf ar gost, yn cynnwys yr holl wariant y gellir ei briodoli'n uniongyrchol i ddod â'r ased i safon weithiol ar gyfer ei defnydd bwriedig. Mae gwerth yr asedau wedi eu nodi yn y Fantolen ar y sail ganlynol:-

- **Tir ac Eiddo Gweithredol** yn cael eu cofnodi yn y "Gwerth Defnydd Presennol" neu "Cost Amnewidiol Dibrisiedig" fel y tybir sy'n briodol.
    - **"Gwerth Defnydd Presennol"** yw'r sail prisiant a argymhellir gan y SORP ble bo ased yn weithredol a ble bo tystiolaeth farchnad i gefnogi

gwerth. Mae'n cael ei ystyried yn fwy priodol na gwerth y farchnad fel mesur gwir gost ei amnewid.

- **"Cost Amnewidiol Dibrisiedig"** yw'r sail prisiant a argymhellir gan y SORP ble bo ased yn weithredol ac nad oes tystiolaeth farchnad i gefnogi gwerth oherwydd ei natur arbenigol. Mae'r ffurf hon o brisiant yn asesu cost net gyfredol o amnewid y gwasanaeth y mae'r eiddo yn ei gyflawni i'r sefydliad.

Mae'r SORP yn dynodi sail "Gwerth y farchnad" fel un priodol ar gyfer yr asedau hynny a ystyrir yn anweithredol. Ystyrir bod holl asedau "Tir ac Eiddo" yr Awdurdod yn asedau gweithredol.

- **Cerbydau, Cerbydau Trwm ac Offer** - mae'r rhain yn cael eu cofnodi ar gost hanesyddol dibrisiedig fel procsi i'r Gost Gyfredol. Heblaw am offer systemau gwybodaeth, mae lefel de minimis o £10,000 wedi ei defnyddio ar gyfer ailbrisio'r asedau.
- Mae **Asedau Cymunedol** yn cael eu cofnodi yn y Fantolen ar sail cost hanesyddol lle mae'n wybyddus, neu fel arall ar gost enwol o £1.

Mae'r asedau a gynhwysir yn y fantolen ar eu gwerth presennol yn cael eu hailbrisio pan fo newidiadau sylweddol wedi digwydd yn eu gwerth, ond ar y lleiaf bob pum mlynedd. Mae cynnydd mewn ailbrisio'n cael eu nodi'n gyfatebol gan gredydau i'r Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn i gydnabod enillion nas gwireddwyd. Yn eithriadol, gall credydau gael eu credydu i'r cyfrif Incwm a Gwariant pan fônt yn codi o wrthdroad colled amhariad a godwyd yn flaenorol ar gyfrif refeniw gwasanaeth.

Mae'r Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn yn cynnwys enillion ailbrisio a gydnabyddir ers 1 Ebrill 2007 yn unig, dyddiad ei gweithredu'n ffurfiol. Mae'r enillion a gafwyd cyn y dyddiad hwnnw wedi eu cyfnerthu yn y Cyfrif Addasiad Cyfalaf.

Amhariad: mae gwerth yr asedau yng nghategori asedau "Tir ac Adeiladau" yn cael eu hadolygu ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol am dystiolaeth o ostyngiad mewn gwerth. Pan ddynodir amhariad fel rhan o'r adolygiad hwn neu fel rhan o ymarfer gwerthuso, cyfrifir am hynny:

- ble y gellir priodoli i ddefnydd clir buddiannau economaidd – codir y taliad ar y cyfrif refeniw gwasanaeth perthnasol
- fel arall – dileu yn erbyn unrhyw enillion ailbrisio sy'n cael eu priodoli i'r ased berthnasol yn y Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn, gydag unrhyw dâl-dros-ben yn cael ei godi ar y cyfrif refeniw gwasanaeth perthnasol

Pan fo colled amhariad yn cael ei godi ar y Cyfrif Incwm a Gwariant ond nad oedd enillion ailbrisio cronedig yn y Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn ar gyfer yr ased honno, mae swm sydd hyd at werth y golled yn cael ei throsglwyddo o'r Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf.

Gwaredu: pan y ceir gwared ag ased neu pan gaiff ei dadgomisiynu, dilëir gwerth yr ased o'r Cyfrif Incwm a Gwariant fel rhan o'r enillion neu golled ar bwynt gwaredu. Mae'r derbyniadau a ddaw yn sgil gwaredu yn cael eu credydu i'r Cyfrif

Incwm a Gwariant fel rhan o'r enillion neu golled ar bwynt gwaredu (h.y. eu netio yn erbyn gwerth cludo'r ased ar bwynt ei gwaredu). Trosglwyddir unrhyw enillion ailbrisio yn y Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf. Mae symiau uwch na £10,000 yn cael eu categoreiddio fel derbyniadau cyfalaf. Mae'n ofynnol ar i'r derbyniadau cyfalaf gael eu credydu i'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Defnyddiadwy Wrth Gefn, ac yna dim ond ar gyfer buddsoddiad cyfalaf newydd y cânt eu defnyddio (neu eu gosod o'r neilltu i leihau angen gwaelodol yr Awdurdod i fenthyca os yn briodol). Mae derbyniadau'n cael eu meddiannu i'r Gronfa Wrth Gefn o'r Datganiad Symudiad ar y Balans Cronfa Gyffredinol.

Dibrisiant: darperir ar gyfer dibrisiant yr holl asedau sydd ag oes gyfyngedig y gellir ei maintioli, trwy ddyrannu gwerth yr ased yn y Fantolen dros y cyfnodau y disgwylir cael budd o'i defnydd. Codir taliad am ddibrisiant asedau sefydlog ar sail llinell syth mewn rhandaliadau dros oes ddefnyddiol ddisgwyliedig yr ased ar y seiliau canlynol:-

Tir ac Eiddo Gweithredol	: rhwng 10 – 60 mlynedd
Asedau Cymunedol	: dim
Offer Systemau Gwybodaeth	: 3 blynedd
Cerbydau	: dros 5 mlynedd i 30% o'r gwerth gwreiddiol dros 7 mlynedd i werth dim.
Dodrefn ac Offer Arall	: oes weithredol amcangyfrifiedig

Mae enillion ailbrisio hefyd yn cael eu dibrisio, gyda swm sy'n cyfateb i'r gwahaniaeth rhwng y dibrisiant gwerth cyfredol a godir ar asedau a'r dibrisiant a fyddai wedi bod yn deilwng i'w godi wedi ei seilio ar gost hanesyddol yn cael ei drosglwyddo bob blwyddyn o'r Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf .

Grantiau a chyfraniadau: ble derbynnir grantiau a chyfraniadau y gellir eu dynodi i asedau sefydlog gydag oes ddefnyddiol gyfyngedig, credydir y symiau i Gyfrifon Grantiau Llywodraeth Wedi'u Gohirio. Yna nodir y balans i refeniw er mwyn gwrth osod y taliadau dibrisiant a wneir ar gyfer yr asedau cysylltiedig yn y cyfrif refeniw gwasanaeth perthnasol, yn unol â'r polisi dibrisiant a gymhwysir iddynt.

9. ASEDAU SEFYDLOG ANGHYFFYRDDADWY

Cyfrifir am asedau anghyffyrddadwy a brynir ar ffurf trwyddedau meddalwedd fel rhan o'r rhaglen amnewid Technoleg Gwybodaeth, ac maent yn cael eu lleihau i refeniw yn unol â'r dibrisiant costau.

10. TALIADAU CYFALAF

Mae'r gost gwasanaethau ar y cyfrif refeniw yn cynnwys tâl cyfalaf ar gyfer yr holl asedau sefydlog a gofnodir yn y Fantolen ar 31ain Mawrth 2010 ac a ddefnyddir wrth ddarparu gwasanaethau yn ystod y flwyddyn.

Mae'r taliadau cyfalaf a wneir i gyfrifon refeniw gwasanaeth yn hafal i swm y dibrisiant a briodolir i'r asedau a ddefnyddir gan y gwasanaeth perthnasol ynghyd â cholledion amhariad a briodolir i ddefnydd clir buddiannau economaidd ar asedau sefydlog diriaethol a ddefnyddir gan y gwasanaeth a cholledion eraill ble nad oes enillion cronedig yn y Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn y gellir eu dileu yn eu herbyn.

Mae balans y Gronfa Gyffredinol yn cael ei addasu fel nad oes gan y canlyniad cyffredinol effaith ariannol ar y symiau a godir o Grant y Parc Cenedlaethol ac Ardoll Llywodraeth Leol - hynny yw, mae'r addasiadau yn mantoli eu hunain.

11. GRANTIAU REFENIW

Mae grantiau refeniw yn cael eu cydweddu gyda'r gwariant y maent yn gysylltiedig â hwy. Mae'r grantiau a wneir i ariannu gweithgareddau cyffredinol yr Awdurdod (e.e. Grant y Parc Cenedlaethol) yn cael eu credydu i waelod y cyfrif Incwm a Gwariant ar ôl Gwariant Net Gweithredu.

12. PRYDLESAU

Mae'r Awdurdod yn rheoli prydlesau gweithredol i:

- Gerbydau, yn cynnwys y rhai i staff o dan y Cynllun Car Prydles Staff,
- Llungopïwyr a pheiriannau diodydd a byrbrydau.
- Tir ac adeiladau

Codir am daliadau prydles yn llawn yn ôl y dyddiad y maent yn daladwy arno ar sail llinell syth, yn sicrhau tâl blynyddol cyfartal i gyfrifon refeniw gwasanaeth drwy gydol oes y brydles.

Mae'r cyfraniadau oddi wrth staff sy'n cael budd o'r cynllun prydles car yn cael eu credydu i'r cyfrif refeniw yn ystod cyfnod eu derbyn.

Mae'r Awdurdod yn rhentu sawl eiddo i gefnogi ei wasanaethau, a hefyd mae'n derbyn incwm rhent o sawl eiddo a berchenogir. Mae'r eiddo a berchenogir yn cael ei ddal fel asedau sefydlog yn y fantolen. Cyfrifir am yr incwm prydles ar sail llinell syth.

Mae gan yr Awdurdod, fel prydleswr, un trefniant prydlesu ariannol yng nghyswllt bar Byrbryd Ogwen. Cyfrifir am yr incwm prydles ar sail llinell syth.

13. DYRANIAD COSTAU GWASANAETHAU CEFNOGOL CANOLOG

Mae costau gwasanaethau cefnogol canolog wedi eu dyrannu'n gyfan gwbl i'r gwasanaethau rheng-flaen mewn modd sy'n gyson â'r Cod Ymarfer Cyfrifeg Gwerth Gorau. Nid yw'r costau craidd corfforaethol a democrataidd wedi eu

dyrannu, yn hytrach na hynny fe'i dangosir mewn cyfrif ar wahân ar wyneb y Cyfrif Incwm a Gwariant, fel rhan o Gost Net Gwasanaethau.

14. COSTAU PENSIWN

Mae gan weithwyr yr Awdurdod fynediad at Gronfa Bensiwn Gwynedd, cynllun buddiant diffiniedig, a weinyddir gan Gyngor Gwynedd.

Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu'n llawn Safon Adrodd Ariannol 17 – Buddiannau Ymddeoliad (FRS17). Mae'r polisïau cyfrifyddu hyn yn adlewyrchu ymrwymiad yr Awdurdod yn y tymor hir i wneud iawn am unrhyw ddiffyg mewn asedau net priodoledig yn y gronfa bensiwn trwy gynyddu cyfraniadau'r cyflogwr.

Pennir graddfeydd cyfraniadau'r Awdurdod gan actiwarïaid proffesiynol cymwysedig, wedi eu seilio ar brisiant ariannu teirblwydd. Mae'r Awdurdod yn disgwyl canlyniad y prisiant a wnaethpwyd ar gyfer 31ain Mawrth 2010 a fydd yn pennu graddfa cyfraniad y cyflogwr sy'n cael ei argymell o'r 1af Ebrill 2011. Mae'r prisiannau'n cael eu gosod gyda'r amcan o sicrhau y gellir cwrdd â rhwymedigaethau cyffredinol y gronfa pan gydweddir hwy â chyfraniadau gweithwyr.

Mae'r ofynnol ar i Awdurdodau lleol gydnabod costau ymddeoliad yn y Gost Net Gwasanaethau pan gânt eu hennill gan weithwyr, yn hytrach na phan fo'r buddiannau'n cael eu talu fel pensiynau yn y pen draw. Fodd bynnag, mae hyn yn gwrthdaro gyda'r taliad y mae rhaid i'r Awdurdod ei wneud yn y Cyfrif Incwm a Gwariant, sydd wedi ei seilio ar yr arian sy'n daladwy yn ystod y flwyddyn i'r gronfa bensiwn, felly mae gwir gost buddiannau ymddeoliad yn cael eu cildroi allan o'r cyfrifon ar ôl y Gwariant Gweithredu Net.

Mesurir asedau'r gronfa ar eu gwerth teg ar ddyddiad y Fantolen, ac mae rhwymedigaethau, fel buddiannau cronnus, yn cael eu didynnu. O dan y SORP, cymerir gwerth teg buddsoddiadau ar bris y bid. Mae'r rhwymedigaethau cynllun priodoledig yn cael eu mesur ar sail actwaraidd gan ddefnyddio dull uned ragamcanedig. Mae rhwymedigaethau'r cynllun yn cynnwys:

- Unrhyw fuddiannau a gafodd eu haddo o dan delerau ffurfiol y cynllun, ac
- Unrhyw rwymedigaeth adeiladol ar gyfer buddiannau pellach ble fo datganiad cyhoeddus neu ymarfer blaenorol gan y cyflogwr wedi creu disgwyliad dilys yn y gweithwyr y bydd y fath grantiau'n cael eu rhoi.

Y gwarged/ diffyg yn y cynllun yw'r gormodedd / diffyg gwerth yr asedau yn y cynllun dros/ o dan werth presennol rhwymedigaethau'r cynllun. Dylai'r Awdurdod gydnabod ased i'r graddfeydd y mae'n gallu adennill gwarged, naill ai drwy gyfraniadau is yn y dyfodol neu drwy ad-daliadau yn y cynllun. Dylai'r Awdurdod gydnabod atebolrwydd i'r graddfeydd mae'n adlewyrchu ei rwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol.

Mae unrhyw newidiadau i ased buddiant diffiniedig neu atebolrwydd yn cael ei ddadansoddi i'w rannau cyfansoddol. Mae'r cyfrifon yn adlewyrchu'n llawn ofynion FRS17.

15. CRONFEYDD WRTH GEFN A DARPARIAETHAU

Darpariaethau - gwneir y rhain a'u gosod yn erbyn y cyfrif refeniw priodol ar gyfer unrhyw rwymedigaethau sy'n debygol o gael eu gwneud, neu sy'n sicr o gael eu gwneud, ond ble mae'n ansicr beth fydd maint y symiau neu ar ba ddyddiau y byddant yn codi.

Cronfeydd wrth gefn yw'r symiau a osodir o'r neilltu, sy'n disgyn tu allan i'r diffiniad o ddarpariaethau, ac y mae'r trosglwyddiadau iddynt ac ohonynt yn cael eu datgelu yn y Datganiadau Cyfrifon fel dosraniad ar wahân.

16. STOCIAU

Mae stoc yn dod i mewn i gyfrif ar bris cost ar gyfer stociau bar, nwyddau i'w hailwerthu, a darpariaethau cyffredinol yng Nghanolfan Astudio Plas Tan y Bwlch, ac ar gyfer nwyddau sydd i'w hailwerthu yng Nghanolfannau Gwybodaeth yr Awdurdod. Mae hyn yn gyson â'r polisi a fabwysiadwyd mewn blynyddoedd blaenorol. Mae'r ymarfer a argymhellir yn ei wneud yn ofynnol i stoc gael ei ddangos ar yr isafswm cost gwirioneddol neu werth net dichonadwy ond ni ystyrir bod y gwahaniaeth yn yr achos hwn yn sylweddol.

17. RHWYMEDIGAETHAU GOHIRIEDIG

Nid oes unrhyw rwymedigaethau gohiriedig wedi codi yn ystod y flwyddyn nac wedi eu cario ymlaen o flynyddoedd blaenorol.

18. YMCHWIL A DATBLYGU

Ystyrir gwariant ar ymchwil a datblygu fel rhan o weithgareddau parhaus yr Awdurdod ac mae'n cael ei ddileu fel mae'n digwydd.

19. ARIAN TRAMOR

Mae incwm a gwariant sy'n deillio o unrhyw drafodion mewn arian cyfredol o dramor yn cael ei gyfieithu i £ sterling.

20. LLOG

Mae'r llog a enillir trwy fuddsoddi arian gwarged yn cael ei gronni, yn unol â'r 'Cod Ymarfer'.

21. TRETH AR WERTH

Paratowyd y cyfrifon ar sail heb TAW, i'r graddfeydd mae'n adenilladwy, yn unol â'r SSAP 5.

CYFRIF INCWM A GWARIANT

Mae'r **Cyfrif Incwm a Gwariant** yn dangos crynodeb o'r asedau a gynhyrchwyd ac a ddefnyddiwyd gan yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn.

2008/09 Gwariant Net £		2009/10 Gwariant Gros £	2009/10 Incwm Gros £	2009/10 Gwariant Net £
	Cadwraeth a'r Amgylchedd Naturiol			
312,795	Amgylchedd Naturiol a Choedwigaeth	282,456	- 12,344	270,112
25,773	Rheoli Rhododendron	10,267	0	10,267
-25,000	Cynllun Llyn Tegid	0	0	0
265,173	Cadwraeth ac Amaethyddiaeth	407,035	- 17,807	389,228
467,412	Rhaglen Rheoli Tir Eryri	0	0	0
1,046,153		**699,758**	**-30,151**	**669,607**
	Cadwraeth a'r Dreftadaeth Ddiwylliannol			
226,207	Amgylchedd Adeiledig	209,578	-3,049	206,529
0	MTT Dolgellau	34,968	-15,869	19,099
90,734	Archaeoleg	109,082	-30,918	78,164
31,308	Bwrlwm Eryri	66,194	-13,697	52,497
348,249		**419,822**	**-63,533**	**356,289**
	Deallwriaeth	-		
552,280	Canolfan Astudiaeth	1,084,188	-633,904	450,284
706,715	Gwybodaeth ac Addysg	742,005	-14,417	727,588
323,541	Canolfannau Gwybodaeth Ymwelwyr	476,349	-144,373	331,976
1,582,536		**2,302,542**	**- 792,694**	**1,509,848**
	Rheolaeth Hamdden & Thrafnidiaeth a Chudiant			
217,456	Mynediad	297,965	-85,140	212,825
230,604	Cyfleusterau Cyffredinol i Ymwelwyr (nodyn 2)	447,364	-64,273	383,091
0	Hafod Eryri (nodyn 2)	7,338,870	-7,543,502	-204,632
-161,669	Meysydd Parcio	228,480	-406,952	-178,472
-12,390	Rheoli Llyn Tegid	26,295	-53,670	-27,375
8,044	Casglu Sbwriel	10,479	0	10,479
34,439	Rheoli Traffig	33,523	-18,740	14,783
316,484		**8,382,976**	**- 8,172,277**	**210,699**
	Wardeiniaid, Gweithwyr Stad & Gwirfoddolwyr			
657,246	Gwasanaeth Warden	785,327	-63,689	721,638
259,886	Gweithwyr Stad	403,716	0	403,716
106,541	Prosiect Partneriaeth Llwybrau Ucheldir Eryri	0	0	0
1,023,673		**1,189,043**	**- 63,689**	**1,125,354**
4,317,095	**Cost Net Gwasanaeth c/ym**	**12,994,141**	**-9,122,344**	**3,871,797**

CYFRIF INCWM A GWARIANT (PARHAD)

2008/09 Gwariant Net £		2009/10 Gwariant Gros £	2009/10 Incwm Gros £	2009/10 Gwariant Net £
4,317,095	**Cost Net Gwasanaeth d/ym**	**12,994,141**	**-9,122,344**	**3,871,797**
350,928	**Rheoli Datblygiad**	**614,674**	**- 214,514**	**400,160**
	Cynllunio Ymlaen a Chymunedau			
454,014	Cynlluniau Strategol a Pholisi	400,545	- 2,028	398,517
107,940	Cymuned ac Amgylchedd (cynn. CAE)	352,555	- 224,298	128,257
561,954		**753,100**	**- 226,326**	**526,774**
730,660	**Corfforaethol a Democrataidd** (yn cynnwys cynhadledd CAPC)	**837,133**	**- 95,385**	**741,748**
183,000	**Costau na ellir eu dosrannu**	**0**	**0**	**0**
6,143,637	**Cost Net Gwasanaeth**	**15,199,048**	**- 9,658,569**	**5,540,479**
- 111,649	Llog ac incwm buddsoddiad			- 34,381
63,000	Cost llog pensiwn a dychweliad arian ar yr ased bensiwn			272,000
6,094,988	**Gwariant Gweithredu net**			**5,778,098**
-4,415,958	Grant Parc Cenedlaethol			-4,462,038
-1,471,986	Ardoll			-1,487,346
207,044	**Gwarged (-) / Diffyg am y flwyddyn**			**-171,286**

DATGANIAD AR SYMUDIAD BALANS CRONFA GYFFREDINOL YR AWDURDOD

Mae'r **Datganiad o Symudiad ar Falans Cronfa Gyffredinol yr Awdurdod** yn gysoniad sy'n dangos sut mae'r balans o adnoddau a gynhyrchwyd/ ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn yn cysylltu â'r gofynion statudol ar gyfer codi Grant y Parc Cenedlaethol.

2008/09 £		2009/10 £
207,044	Gwarged am y flwyddyn ar y Cyfrif Incwm a Gwariant	- 171,286
- 207,044	Y Swm Ychwanegol Net sydd ei angen gan statud ac arferion priodol di-statud i'w debydu neu eu credydu i Falans yr Awdurdod am y flwyddyn	171,286
0	Cynnydd ym Malans yr Awdurdod am y Flwyddyn	0
- 400,000	Balans yr Awdurdod wedi cario drosodd	- 400,000
- 400,000	Balans yr Awdurdod wedi cario ymlaen	- 400,000

DATGANIAD O GYFANSWM ENILLION A CHOLLEDION CYDNABYDDEDIG

Mae'r **Datganiad o Gyfanswm Enillion a Cholledion Cydnabyddedig (STRGL)** yn dangos sut mae'r symudiad mewn gwerth net yn y Fantolen yn cael ei ddynodi i'r gwarged/ diffyg Cyfrif Incwm a Gwariant ac i golledion ac enillion eraill heb eu gwireddu.

2008/09 **£**		**2009/10** **£**
207,044	Gwarged ar y Cyfrif Incwm a Gwariant am y Flwyddyn	- 171,286
- 525,000	Gwarged o ailbrisio asedau sefydlog	- 45,000
2,006,000	(enillion) / diffyg actwaridd ar asedau cronfa bensiwn a rhwymedigaethau	6,579,000
1,688,044	Cyfanswm yr enillion a cholledion cydnabyddedig am y flwyddyn	**6,362,714**
-30,726	Addasiad cyfnod blaenorol 2008/09	0
1,657,318	Cyfanswm colledion cydnabyddiedig ers cyhoeddi'r Datganiad Cyfrifon 2008/09	**6,362,714**

Y FANTOLEN

Mae'r Fantolen yn datgan sefyllfa ariannol yr Awdurdod ar 31ain Mawrth 2010

2008/09			2009/10
£		£	£
	Asedau Sefydlog - nodyn 12(ii)		
	Asedau Gweithredol		
9,478,090	Tir ac Adeiladau	9,589,730	
433,460	Cerbydau, Cerbydau Trwm a Pheiriannau	363,070	
254,250	Asedau Cymunedol	254,250	
	Asedau An-weithredol		
7,714,750	Asedau'n cael eu hadeiladu	102,740	
65,760	Dyledwyr Tymor Hir - nodyn 19	71,360	
17,946,310	**CYFANSWM ASEDAU TYMOR HIR**		**10,381,150**
	Asedau Cyfredol :-		
105,110	Stociau - nodyn 18	96,470	
396,420	Dyledwyr (dyledus o fewn 12 mis) - nodyn 19	414,820	
2,730,590	Buddsoddiadau tymor byr - nodyn 20	2,335,610	
0	Arian a Banc	649,560	
3,232,120			**3,496,460**
	Rhwymedigaethau Cyfredol :-		
-796,250	Credydwyr - nodyn 21	-857,210	
-47,800	Arian a Banc	0	
-844,050			**-857,210**
20,334,380	**CYFANSWM ASEDAU llai RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL**		**13,020,400**
-3,435,100	Diffyg Cronfa Bensiwn - nodyn 29		-10,027,610
-302,510	Cyfrif Grantiau Llywodraeth - wedi'u gohirio (cymwysedig) -nodyn 22		-720,710
-8,000,360	Cyfrif Grantiau Llywodraeth - wedi'u gohirio (anghymwysedig) -nodyn 22		-38,390
8,596,410	**CYFANSWM ASEDAU llai RHWYMEDIGAETHAU**		**2,233,690**
	CYNRYCHIOLIR GAN :-		
9,052,610	Cyfrif Addasiad Cyfalaf - nodyn 25(ii)		8,988,700
2,049,700	Cronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig - nodyn 25(i)		2,298,400
525,000	Cronfa Ailbrisio Wrth Gefn - nodyn 25 (iii)		570,000
4,200	Derbyniadau Cyfalaf Defnyddiadwy		4,200
-3,435,100	Cronfa Bensiwn Wrth Gefn		-10,027,610
400,000	Balans Refeniw Cyffredinol		400,000
8,596,410	**CYFANSWM ECWITI**		**2,233,690**

DATGANIAD LLIF ARIAN PAROD

Mae'r **Datganiad Llif Arian Parod** yn crynhoi'r llif arian parod i mewn ac allan sy'n deillio o drafodion i bwrpasau refeniw a chyfalaf.

2008/09			2009/10
£		£	£
	TALIADAU REFENIW		
4,667,960	Costau Gweithwyr	**4,752,020**	
5,242,670	Costau Gweithredu Eraill	**2,896,250**	
9,910,630			**7,648,270**
	DERBYNEBION REFENIW		
-4,415,960	Grant y Parc Cenedlaethol	**-4,462,040**	
-1,471,990	Incwm Ardoll	**-1,487,350**	
-61,460	Rhent	**-47,650**	
-2,405,220	Grantiau Llywodraethol Eraill	**-395,990**	
-950,420	Incwm Arian Refeniw Arall	**-1,671,390**	
			-8,064,420
605,580	**GWEITHGAREDDAU REFENIW NET**		**-416,150**
	GWASANAETHU'R CYLLID		
-108,380	Llog i Mewn		**-32,820**
0	Llog les cyllid		**-4,750**
-108,380			**-37,570**
225,810	**TALIADAU CYFALAF : Pryniant Asedau**		**108,260**
998,100	**Taliadau Cyfalaf Eraill**		**171,010**
-1,479,180	**DERBYNEBION CYFALAF : Grantiau Cyfalaf i Law**		**-127,930**
0	**Derbyniadau Cyfalaf Ariannol Eraill**		**0**
-255,270	**GWEITHGAREDDAU CYFALAF NET**		**151,340**
241,930	**ARIAN NET MEWN (-) / ALLAN**		**-302,380**

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL

1. GWEITHREDIADAU CAFFAELEDIG, TERFYNWYD

Ni fu unrhyw eitemau o'r fath yn ystod y flwyddyn.

2. EITEMAU CYFNOD BLAENOROL, EITHRIADOL AC ANGHYFFREDIN

Mae dwy eitem o natur eithriadol yng nghyfrifon 2009/10 fel a ganlyn :

- Cafodd adeilad a thir Hafod Eryri ei brisio ar £500,000 gan Swyddfa'r Prisiwr Dosbarth yn 2009/10. Mae'r amhariad cyfalaf ar brisiant o £7,283,748 a'r addasiad grant at i lawr o £7,543,502 yn gadael incwm grant net o £259,755 a gaiff ei leihau gan gostau "refeniw" pellach yn 2009/10 i'r £204,632 yn y Cyfrif Incwm a Gwariant. Mae'r ffigwr incwm grant net o £259,755 oherwydd na chynhwyswyd rhai costau cychwynnol penodol yn y gost "ased yn cael ei adeiladu" a gofnodwyd yn flaenorol yn y Fantolen.

- Yn ystod 2009/10 cafodd ased ei ddi-gydnabod o'r fantolen gan ei fod wedi ei gynnwys mewn camgymeriad yn y prisiant eiddo yn 2006/07. Arweiniodd hyn at dâl amhariad cyfalaf o £145,000 yn erbyn Cyfleusterau Ymwelwyr yn y Cyfrif Incwm a Gwariant.

Nid oes eitemau cyfnod blaenorol nac anghyffredin.

3. DOSBARTHU GWASANAETHAU

Mae'r dosbarthiad diwygiedig o wasanaethau yn y Cyfrif Incwm a Gwariant yn unol â gofynion Cod Ymarfer Cyfrifyddu Gwerth Gorau.

4. INCWM A GWARIANT ASIANTAETH

Nid oes incwm/ gwariant asiantaeth sy'n berthnasol i gyfrifon Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ar gyfer 2009/10.

5. LWFANSAU AELODAU

Y lwfansau a dalwyd i aelodau oedd:-

	2009/10	**2008/09**
	£	**£**
Teithio & Chynhaliaeth	15,000	17,790
Colled enillion	420	0
Lwfansau Aelodau	68,520	69,470
	83,940	**87,260**

Cynhaliodd yr Awdurdod gynhadledd CAPC yn ystod Medi 2009. Yr unig gostau perthnasol i'r nodyn hwn yw'r costau teithio i ac o'r Gynhadledd i aelodau unigol.

Cyhoeddwyd gwybodaeth bellach ar y symiau a dalwyd i aelodau unigol yn y Caernarfon & Denbigh Herald a'r Cambrian News dyddiedig 20 Mai 2010.

6. GRANTIAU REFENIW SYLWEDDOL

Mae'r Awdurdod yn derbyn nifer o grantiau refeniw yn ychwanegol at y Grant Parc Cenedlaethol ac Ardoll Awdurdod Lleol a grantiau cyfalaf yn ystod y flwyddyn. Mae'r grantiau hyn wedi'u cynnwys yn y Cyfrif Incwm a Gwariant fel grantiau gwasanaeth penodol:

	2009/10	**2008/09**
	£	**£**
Llywodraeth Cynulliad Cymru		
- Cronfa Datblygiad Cynaliadwy	216,670	216,670
- Cyflenwi Cynllunio Cymru	52,200	64,890
- Cynllun Nant Peris	0	50,000
- Prosiect Rhododendron	0	98,360
- Adeiladau Amaethyddol Mewn Risg	0	7,000
- Cyllid CAE i fesurau lleihau carbon prif swyddfeydd	15,360	0
Cyngor Cefn Gwlad Cymru		
- Cyrsiau Hyfforddiant Plas Tan y Bwlch	42,960	55,920
- Prosiect Llwybtrau Ucheldir Eryri	0	12,700
- Gwaith Rhododendron	15,000	0
- Prosiectau Bwrlwm Eryri	10,000	0
CADW		
- Arolygon a gweithiau archeolegol	27,580	0
Swyddfa Ariannu Ewropeaidd Cymru		
- Rhaglen Rheoli Tir Eryri	0	745,270
- Prosiect Llwybrau Ucheldir Eryri	0	675,240
Cronfa Treftadaeth y Loteri		
- Menter Treftadaeth Tref Dolgellau	15,870	21,930
	395,640	**1,947,980**

7. TÂL STAFF

Mae Rheoliad 7A o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2010 yn gofyn am ddatgeliadau ar dâl staff

Nid oes uwch swyddogion na staff eraill, yn ôl diffiniad y Rheoliadau, sydd â thâl gan hepgor cyfraniadau pensiwn cyflogwr o dros £60,000 yn 2008/09 nac ychwaith yn 2009/10 heblaw'r canlynol :

2009/10			**2008/09**	
Prif Weithredwr	**Prif Swyddog Cyllid (Adran 151) ***		**Prif Weithredwr**	**Prif Swyddog Cyllid (Adran 151) ***
75,012	3,670	Cyflog (cynnwys ffioedd a lwfansau)	75,012	3,670
2,750	0	Budd o fath arall	3,145	0
77,762	**3,670**	**Cyfanswm tâl (heb gynnwys cyfraniad pensiwn y cyflogwr)**	**78,157**	**3,670**
15,152	767	Cyfraniad pensiwn y Cyflogwr	15,152	767
92,914	**4,437**	**Cyfanswm tâl (yn cynnwys cyfraniad pensiwn y cyflogwr)**	**93,309**	**4,437**

* Swydd rhan amser ar raddfa fyddai'n gyfanswm dros £60,000 pe bai'n llawn amser

8. TRAFODION PARTÏON CYSYLLTIEDIG

Mae gofyn i'r Awdurdod ddatgelu trafodion materol gyda phartïon cysylltiedig - cyrff neu unigolion sydd â'r potensial i reoli neu ddylanwadu ar yr Awdurdod neu i gael eu rheoli neu eu dylanwadu arnynt gan yr Awdurdod. Mae datgeliadau o'r trafodion hyn yn caniatáu i ddarllenwyr asesu i ba raddau y gallai'r Awdurdod fod wedi'i gyfyngu yn ei allu i weithredu yn annibynnol neu yr oedd wedi sicrhau'r gallu i gyfyngu gallu parti arall i fargeinio'n rhydd gyda'r Awdurdod. Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu lefel materoliaeth o £5,000 ar gyfer datgeliadau perthnasol i Aelodau a Staff.

Mae grantiau ariannu ar lefel materol a dderbynnir gan yr Awdurdod yn cael eu datgelu yn y Cyfrifon yn y Cyfrif Incwm a Gwariant ar dudalennau 16-17, nodyn 6 ar Grantiau Refeniw Sylweddol a nodyn 12(i) ar y Rhaglen Gyfalaf.

Mae'n ofynnol ar i'r Awdurdod ddatgelu'r holl drafodion perthnasol cysylltiedig rhwng yr Awdurdod a'i Aelodau a Phrif Swyddogion (yn cynnwys aelodau o'u teuluoedd agos). Ymhellach at y datgeliad ar Lwfansau Aelodau (nodyn 5) a Thâl Staff (nodyn 7), y trafodion perthnasol ar gyfer 2009/10 oedd:-

i) Datganodd un Prif Swyddog ddiddordeb mewn corff cyhoeddus sydd wedi bod yn delio gyda'r Awdurdod. Derbyniodd yr Awdurdod gyfanswm o £1.168m gan y corff yn ystod 2009/10.
ii) Mae gan yr Awdurdod gontractau gyda Chyngor Gwynedd i ddarparu'r gwasanaethau canlynol yn ystod 2009/10:-
    a) Gweinyddiaeth y Gronfa Bensiwn
    b) Gwasanaethau Cefnogi'r Gyflogres
    c) Gwasanaeth Archwilio Mewnol
iii) Mae Prif Swyddog Cyllid yr Awdurdod yn Bennaeth Cyllid yng Nghyngor Gwynedd hefyd.

Mae'r Awdurdod yn gyfrifol am weinyddu arian grant Cronfa Arbrofol Eryri (C.A.E.) ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru. Wrth ddyfarnu grantiau i sefydliadau, mae'r panel C.A.E. yn gosod amodau grant arbennig, sy'n cynnwys cysylltu perfformiad ariannol i gyflawni cerrig milltir a gytunwyd. Yn ystod y flwyddyn ariannol 2009/10, cymeradwywyd 13 dyfarniad i 10 o gyrff gyda phob un yn fwy na £10,000.

Mae gan yr Awdurdod "Gytundebau Rheoli" gyda pherchnogion tir lleol sy'n gysylltiedig â defnydd tir. Yn ystod y flwyddyn ariannol 2009/10 bu un cytundeb newydd yn rhychwantu 2 flwyddyn ariannol a oedd gwerth mwy na £10,000.

9. COSTAU ARCHWILIO

Roedd y symiau canlynol yn daladwy i'r Comisiwn Archwilio ar gyfer y flwyddyn:-

Maes Rheoliadol	**2009/10 (£)**	**2008/09 (£)**
Ffioedd sy'n daladwy i SAC yng nghyswllt gwasanaethau archwilio allanol a wnaed gan yr archwilydd penodedig	27,471	24,735
Ffioedd sy'n daladwy i SAC yng nghyswllt Archwiliad Statudol	0	9,371
Ffioedd sy'n daladwy i SAC am ardystio hawliadau a ffurflenni grant	1,000	3,840
Cyfanswm	**28,471**	**37,946**

Mae'r ffi yn 2008/09 am £9,371 ar gyfer archwiliad statudol yn ymwneud ag archwiliad o'r gwasanaeth Cynllunio.

10. ESBONIAD O ARWYDDOCÂD Y DATGANIAD AR SYMUDIAD AR FALANS Y GRONFA GYFFREDINOL.

Mae'r Datganiad o Symudiadau yn cynrychioli rhan o'r broses o gysoni'r gwarged /diffyg yn y Cyfrif Incwm a Gwariant gyda'r symudiad yng ngwerth net yr Awdurdod.

Y sefyllfa alldro ar gyfer 2009/10 ydyw bod balans yn cario drosodd o £182,557 i 2010/11. Nid oes dyraniad o'r swm yma i'r Gronfa Gyffredinol, ac felly dim symudiad ym Malans y Gronfa.

11. NODYN AR GYSONI EITEMAU I'R DATGANIAD AR SYMUDIAD BALANS CRONFA GYFFREDINOL YR AWDURDOD

2008/09 £			2009/10 £
	Symiau a gynhwysir yng Nghyfrif Incwm a Gwariant ond sy'n ofynnol trwy statud i'w heithrio wrth bennu Symudiad ar falans yr Awdurdod		
-508,084	Dibrisiant ac amhariad asedau sefydlog	-7,882,975	
129,449	Amorteiddiad Grantiau Llywodraeth Gohiriedig	7,656,698	
-103,898	Gwariant refeniw a gyllidwyd o gyfalaf yn unol â Deddf	-88,106	
-695,000	Taliadau net a wneir i fuddiannau ymddeoliad yn unol ag FRS 17	-726,000	
- 1,177,533			**- 1,040,383**
	Symiau na chynhwysir yn y Cyfrif Incwm a Gwariant ond sydd angen eu cynnwys trwy statud wrth bennu Symudiad ar falans yr Awdurdod am y flwyddyn		
321,035	Taliad cyfalaf a delir yn ystod y flwyddyn i Falans Cronfa'r Awdurdod	250,469	
738,167	Cyfraniadau'r cyflogwr sy'n daladwy i Gronfa Bensiwn Gwynedd a buddiannau ymddeoliad sy'n uniongyrchol daladwy i bensiynwyr	712,496	
1,059,202			**962,965**
	Trosglwyddiadau i ac o Falans Cronfa'r Cyngor sydd angen eu cymryd i ystyriaeth wrth benderfynu ar Symudiad ym Malans Cronfa'r Cyngor am y flwyddyn		
- 88,713	Trosglwyddiad net i gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd	248,704	
- 88,713			**248,704**
- 207,044	Y Swm Ychwanegol Net sydd ei angen gan statud ac arferion priodol di-statud i'w debydu neu eu credydu i Falans yr Awdurdod am y flwyddyn		**171,286**

12. CRYNODEB O WARIANT CYFALAF A GWAREDIAD ASEDAU SEFYDLOG

12 (I) RHAGLEN GYFALAF

Prosiect	Cyfanswm cost 2009/10	Cyfanswm cost 2008/09
Cadwraeth a Threftadaeth Ddiwylliannol		
Amgylchedd Adeiledig	88,594	180,159
Archeoleg	0	20,000
Rheolaeth Hamdden		
Pont Droed Bryn y Felin	0	10,888
Maes parcio a thoiled Cae Garnedd	0	21,002
Gwella Mynediad	35,000	30,299
Goriad Gwyrdd	18,740	0
Cadair olwyn a threlar "Tramper"	0	6,555
Pont Clogwyn Fawr	19,934	0
Pen y Pass - adeilad	90,010	0
Hafod Eryri	29,199	857,035
Dealltwriaeth		
Canolfan Astudio - llofftydd	26,289	19,985
Canolfan Astudio - bwyler newydd a system parthu	14,389	60,280
Canolfan Astudio - datblygu cegin	0	29,863
Canolfan Astudio - ffenestri newydd	19,172	0
Canolfan Astudio - cludwr pobl	12,006	0
Canolfan Astudio - cynllun hydro-electrig	7,535	5,200
Offer gwneud arwyddion	0	15,268
Warden & Gweithwyr Stad		
Prynu Cerbydau	12,429	85,200
Offer a pheiriannau	0	216,333
Rheolaeth Datblygu		
System Ceisiadau Cynllunio Newydd	0	15,256
Gwasanaethau Cefnogol		
Rhaglen Adnewyddu offer T.G.	52,628	42,451
Pencadlys	11,632	29,271
CYFANSWM GWARIANT	**437,557**	**1,645,045**
ARIANNU		
Ariannu Refeniw Uniongyrchol	250,469	321,035
Grantiau a Chyfraniadau	187,088	1,324,010
CYFANSWM INCWM	**437,557**	**1,645,045**

Darparwyd y cyllid perthnasol uchod gan :	**2009/10**	2008/09
Swyddfa Ariannu Ewropeaidd Cymru	0	630,627
Cynulliad Cymru	166,666	572,995
Croeso Cymru	0	21,967
CADW	422	81,705
Ymddiriedolaeth Genedlaethol	0	5,444
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	20,000	0
Cyngor Cefn Gwlad Cymru	0	11,272
	187,088	**1,324,010**

O'r cyfanswm o wariant cyfalaf o £437,557, mae £162,268 yn ymwneud â gwariant ar asedau sefydlog nad ydynt yn perthyn i'r Awdurdod sef cynlluniau Amgylchedd Adeiledig (£88,594), Gwelliannau Mynediad (£35,000), cyfraniad Goriad Gwyrdd (£18,740) a Phont Clogwyn Fawr (£19,934) - mae'r grantiau a chyfraniadau cysylltiedig yn £74,162. Felly mae'r gwariant refeniw net o gyfalaf o dan statud yn £88,106.

12 (II) SYMUDIAD MEWN ASEDAU SEFYDLOG YN YSTOD Y FLWYDDYN

	Tir ac Adeiladau	Cerbydau, Offer a Chyfarpar	Cymuned	Asedau'n cael eu hadeiladu	Cyfanswm
Cost neu brisiad					
Ar 1 Ebrill 2009	10,199,500	1,502,361	254,250	7,714,750	19,670,861
Ychwanegiadau	7,810,230	77,060	0	126,740	8,014,030
Gwaredu		-78,000	0	-7,738,750	-7,816,750
Ailbrisio	45,000		0		45,000
Ar 31 Mawrth 2010	18,054,730	1,501,421	254,250	102,740	19,913,141
Dibrisio ac amhariadau					
Ar 1 Ebrill 2009	721,410	1,068,901	0	0	1,790,311
Cost am 2009/10		0			0
- dibrisio	219,200	147,450			366,650
-amhariad	7,513,010				7,513,010
Gwaredu		-78,000			-78,000
Ailbrisio	11,380	0			11,380
Ar 31 Mawrth 2010	8,465,000	1,138,351	0	0	9,603,351
Swm mantolen ar 31 Mawrth 2010	**9,589,730**	**363,070**	**254,250**	**102,740**	**10,309,790**
Swm mantolen ar 1 Ebrill 2009	9,478,090	433,460	254,250	7,714,750	17,880,550

13 YMRWYMIADAU O DAN GONTRACTAU CYFALAF

Mae gan yr Awdurdod yr ymrwymiadau cyfalaf sylweddol canlynol:

1. **Prosiect MTT Dolgellau** – mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i gyfrannu £420,000 tuag at gost amcangyfrifiedig o £1,780,000 y disgwylir ei gael dros y 5 mlynedd i 2014/2015. Prif amcanion y prosiect yw:
   - Adfer adeiladau penodol sydd o arwyddocâd treftadaeth
   - Ailadfer gofod llawr nad yw'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd ar gyfer ei ddefnyddio
   - Codi ymwybyddiaeth o'r amgylchedd hanesyddol

   Mae £90,410 o waelodlin yr Awdurdod wedi ei ymrwymo i'r cynllun ar gyfer 2010/11. Bydd CADW a Chronfa Treftadaeth y Loteri yn cyfrannu at y cynllun, ac efallai y bydd Cyngor Gwynedd yn cyfrannu tuag at ailadfer unedau preswyl gwag.

2. **Caffi Pen y Pass –** Ar hyn o bryd, mae'r Awdurdod ran o'r ffordd drwy ailwampio y gegin a'r caffi, ac amcangyfrifir y gost yn £137,000. Bydd angen gwariant o £47,000 i gwblhau'r gwaith yn 2010/11, ac mae'r Awdurdod yn gyfrifol am gyfrannu £30,000 o'r gyllideb Cynnal a Chadw Rhaglen Eiddo. Mae'r £17,000 sy'n weddill yn gyllid grant a drefnir drwy'r tenant.

3. **Plas Tan y Bwlch –** bydd angen defnydd pellach o Grant Cyfalaf Llywodraeth Cynulliad Cymru yn 2010/11 ar gyfer rhaglen uwchraddio'r cyfleusterau yn y ganolfan astudiaeth. Ar hyn o bryd, dyrannwyd £20,926 o'r grant i'r gwaith hwn ar gyfer 2010/11.

4. **Plas Tan y Bwlch –** yn ddarostyngedig i ganiatâd cynllunio, amcangyfrifir y bydd y cynllun hydro-electrig angen £160,000 i'w gwblhau. Bydd yr Awdurdod yn ceisio sicrhau arian grant ac/neu benthyciad di-log gan yr Ymddiriedolaeth Garbon (a weinyddir drwy Salix Finance) i gyllido'r cynllun yn rhannol.

5. **Depo Penrhyndeudraeth –** ar hyn o bryd mae'r Awdurdod yn y broses o brynu tir ychwanegol gan Gyngor Gwynedd am £25,000 yn y depo ym Mhenrhyndeudraeth i bwrpas adeiladu cyfleuster storio yno fel y gellir symud ffeiliau sydd wedi eu harchifo o'r cyfleuster storio prydles ym Mhorthmadog.

6. **Betws y Coed** - Mae'r Awdurdod wedi cytuno i ymrwymo £7,000 tuag at gynllun datblygu gwledig posib ar gyfleusterau ymwelwyr sydd werth oddeutu £70,000 trwy Raglen Datblygu Gwledig Conwy.

14. GWYBODAETH AM YR ASEDAU A DDELIR

Mae'r portffolio o "Asedau Tir ac Eiddo" a ddelir gan yr Awdurdod yn ôl y Gofrestr Asedau ar 31ain Mawrth 2010 fel a ganlyn :

Math	Nifer	
	2009/10	2008/09
Eiddo ac Asedau Tir "Gweithredol"		
Safle hanesyddol	1	1
Gweithdai a Storfeydd	2	2
Canolfan Astudio	1	1
Canolfannau Ymwelwyr / TICs	2	2
Meysydd Parcio	33	33
Cyfleusterau Ymwelwyr (yn cynnwys blaendraeth ac adeiladau Llyn Tegid)	7	7
Swyddfa'r Parc Cenedlaethol	1	1
Canolfannau Gwasanaeth Warden	3	3
Adeilad a Thir Copa'r Wyddfa	1	1
Swyddfa Warden Dolgellau	1	1
Eiddo ac Asedau Tir "Cymunedol"		
Coetir	14	14
Llyn Tegid	1	1
Cyfleusterau Ymwelwyr	4	4
Cyfanswm	**71**	**71**

Mae'r asedau cymunedol a ddelir fel a ganlyn :

14 Safleoedd coetir :

- Ardal Amwynder Panorama
- Tir ger y Snowdon Ranger
- Cae Jêl, Dolgellau
- Coed Hafod y Bryn, Llanbedr
- Coetir a Man Picnic Farchynys
- Coed Graienyn Llangywair
- Coetir Nyrs Cae Seren
- Y Winllan
- Coed Mawr, Maentwrog
- Coetir Bronaber, Trawsfynydd
- Coetir Coed Hafod, Bro Garmon
- Coed Bryn Brethynnau
- Coed Felin Blwm, Trefriw
- Coedwig Abergwynant, ger Dolgellau

Llyn Tegid

4 o Gyfleusterau ymwelwyr :

- Teras Sygun
- Craig yr Aderyn
- Mwynglawdd Plwm y Parc, Trefriw
- Llyn y Dywarchen

15 ASEDAU A DDELIR DAN BRYDLESAU

Prydlesau Ariannol
Mae'r Awdurdod, fel prydleswr, gydag un prydles ariannol ar 31ain Mawrth 2010. Mae'r brydles, a ddangoswyd gynt fel prydles weithredol, wedi ei hailddosbarthu yn brydles ariannol yn 2009/10.

Mae'r rhent sydd i'w dderbyn ar y trefniant prydles ariannol yn £5,250. Prisir gwerth y buddsoddiad net ynddo ar 1/4/2004 yn £10,580. Prynwyd y safle am £350 yn 1980 a'i brydlesu i deulu'r tenant presennol. Mae'r denantiaeth bresennol yn rhedeg am 21 o flynyddoedd o 1/4/2004.

Prydlesau Gweithredol
Mae taliadau ar Brydlesau Gweithredol o dan delerau'r prydlesau gweithredol, a chodir amdanynt mewn rhandaliadau cyfartal yn y cyfrif refeniw perthnasol. Mae'r cyfanswm am 2009/10 ar gyfer "tir ac adeiladau" a ddangosir isod yn cynnwys gwerth £39,120 o daliadau ar gyfer llogi ystafelloedd gwesty a lleoliad cynhadledd yn achos y Gynhadledd CAPC. Y taliadau hyn oedd:-

	2009/10	**2008/09**
	£	**£**
Tir ac Adeiladau	124,630	78,370
Offer swyddfa	12,790	11,200
Prydlesu Ceir - Gweithwyr cyflogedig	22,920	26,570
Prydlesu cerbydau - Awdurdod	6,330	25,540
	166,670	**141,680**

Mae dadansoddiad o ymrwymiad gwariant yr Awdurdod ar gyfer prydlesau gweithredol ar 31ain Mawrth 2010 fel a ganlyn:

	Tir ac Adeiladau	**Cerbydau & Offer**	**Cyfanswm**
Ymrwymiadau prydles ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf (2010/2011)	**69,220**	**38,810**	**108,030**
Prydlesau yn gorffen flwyddyn nesaf	23,770	17,680	**41,450**
Prydlesau yn gorffen mewn 2 – 5 mlynedd	10,600	21,130	**31,730**
Prydlesau yn gorffen mewn 5+ o flynyddoedd	34,850	0	**34,850**
	69,220	**38,810**	**108,030**

Yn 2009/10 gweithredodd yr Awdurdod fel prydlesydd ar 12 eiddo (yn gyfan neu'n rhannol). Yr incwm a gynhyrchwyd yn 2009/10 oedd £98,380 (2008/09 £61,570). Mae'r taliad dibrisiant cysylltiedig ar yr asedau perthnasol yn £6,760. Mae'r ffigyrau hyn yn cynnwys symiau sy'n berthnasol i'r brydles ariannol fel y nodwyd uchod.

16. GWYBODAETH PRISIADAU

Mae gwerth asedau wedi eu datgan yn y Fantolen ar y sail ganlynol:-

- Mae **Tir ac Eiddo Gweithredol** yn cael ei gofnodi yn y "Gwerth Defnydd Presennol" neu'r "Cost Amnewidiol Dibrisiedig" fel y tybir sy'n briodol.

  Ystyrir bod holl dir ac eiddo'r Awdurdod yn weithredol. Priswyd yn ystod blwyddyn ariannol 2006/07 gan brisiwr cymwys annibynnol, yn gweithio ar ran J.H .Jones Syrfewyr Siartredig, Gwerthwyr Tai, Priswyr ac Arwerthwyr. Cafwyd ail farn ynghylch sampl o eiddo gan y Prisiwr Dosbarth. O ganlyniad, mae'r prisiant terfynol yn cynnwys ffigyrau gan y ddau brisiwr.

  Prisiwyd adeilad Hafod Eryri gan y Gwasanaeth Prisiwr Dosbarth ym Mai 2009.

  Nid oes achos o amhariad yn ôl yr adolygiad amhariad a gynhaliwyd ar ddiwedd y flwyddyn.

- Mae **Cerbydau, Cerbydau Trwm ac Offer** yn cael eu cofnodi ar gost dibrisiad hanesyddol fel procsi ar gyfer y Gost Bresennol. Heblaw am offer systemau gwybodaeth, mae lefel 'de minimis' o £10,000 wedi ei ddefnyddio ar gyfer ailbrisiant asedau. Nid yw'r asedau hyn wedi ei hail brisio.

- Mae **Asedau cymunedol** yn cael eu cofnodi yn y fantolen ar "Gost Hanesyddol" lle mae'n hysbys, neu fel arall ar werth enwol o £1.

17. ASEDAU SEFYDLOG ANGHYFFYRDDADWY

Cyfrifir am asedau anghyffyrddadwy a brynir ar ffurf trwyddedau meddalwedd fel rhan o'r rhaglen amnewid Technoleg Gwybodaeth, ac maent yn cael eu lleihau i refeniw yn unol â'r dibrisiant costau.

18. STOCIAU

Daw stociau i mewn i gyfrifon ar bris cost. Roedd y stociau a oedd yn cael eu dal ar 31ain Mawrth 2010 yn cynnwys:-

	2009/10	**2008/09**
	£	**£**
Canolfan Astudio, Plas Tan y Bwlch : Bar	2,110	2,660
Canolfan Astudio, Plas Tan y Bwlch : Nwyddau i'w Hailwerthu	2,750	3,000
Plas Tan Y Bwlch, Canolfan : Stoc Arlwyo a Glanhau	2,670	3,170
Canolfannau Gwybodaeth : Nwyddau i'w Hailwerthu	88,940	83,280
Byrddau cerdded	0	13,000
	96,470	**105,110**

19. DYLEDWYR

	2009/10 £	2008/09 £
Symiau'n dod yn ddyledus o fewn un flwyddyn:		
Dyledwyr Amrywiol heb eu casglu	121,950	56,550
Cronfeydd wrth gefn Dyledwyr:		
Adrannau Llywodraeth - Grantiau	75,180	192,540
Adran Llywodraeth - Cyllid a Thollau EM	72,430	49,050
Awdurdodau Llywodraeth Leol	43,170	35,710
Cronfeydd wrth gefn Dyledwyr eraill	19,650	30,170
Cyndaliadau	96,770	52,400
	429,150	416,420
llai Darpariaeth Dyled Ddrwg	-14,330	-20,000
	414,820	**396,420**
DYLEDWYR TYMOR HIR (symiau sy'n dod yn ddyledus ar ôl un flwyddyn)		
Prydles Ariannol	7,560	-
Benthyciadau Car i Weithwyr	63,800	65,760
	71,360	**65,760**

20. BUDDSODDIADAU TYMOR BYR

Mae'r Awdurdod yn medru buddsoddi ac ennill llog ar ei arian dros ben. Yn ystod 2009/10 mae'r cronfeydd wedi ennill llog mewn Cyfrifon Cadw Banc. Roedd y cyfanswm llog a enillwyd yn ystod 2009/10 yn £29,635.*(2008/09:* £111,649*).*

21 CREDYDWYR

	2009/10 £	2008/09 £
Rheoli Credydwyr Amrywiol	-265,960	-203,960
Ernes Cyrsiau'r Flwyddyn Nesaf	-19,220	-22,480
Cronfa wrth gefn Credydwyr Amrywiol	-429,250	-449,330
Derbyniadau Ymlaen Llaw	-128,760	-92,860
Cronfeydd wrth gefn a chyfrifon cadw eraill	-14,020	-27,620
	-857,210	**-796,250**

22. GRANTIAU LLYWODRAETH - GOHIRIEDIG

Credydir grantiau cyfalaf a dderbynnir ac a gysylltir ag asedau dibrisiadwy i'r cyfrifon grantiau llywodraeth sydd wedi'u gohirio. Gwelir y rhai sydd i'w priodoli i asedau dibrisiadwy a gwblhawyd yn y Cyfrif Grantiau Llywodraeth Cymwysedig a chânt eu rhyddhau i gyfrif refeniw y gwasanaeth perthnasol dros oes yr asedau y maent yn ymwneud â hwy.

Gwelir y grantiau hynny a briodolir i asedau sy'n cael eu hadeiladu ac nad ydynt felly'n destun i ddibrisiant h.y. ailwampio Pen y Pass a ffioedd dylunio cychwynnol ar gyfer datblygiad hydro-electrig ym Mhlas Tan y Bwlch yn y cyfrif Grantiau Llywodraeth Anghymwysedig

Cyfrif Grantiau Llywodraeth wedi'u Gohirio (Cymwysedig)	**2009/10**	**2008/09**
	£	**£**
Balans ar 1af Ebrill 2009	-302,510	-77,320
Grantiau Cyfalaf a Chyfraniadau	-489,130	-354,630
Lleihau ar gyfer Dibrisiant	70,930	96,950
Grantiau cyfalaf eraill wedi eu lleihau	0	32,490
Balans ar 31ain Mawrth 2010	**-720,710**	**-302,510**

Cyfrif Grantiau Llywodraeth wedi'u Gohirio (Angymhwysedig)	**2009/10**	**2008/09**
	£	**£**
Balans ar 1af Ebrill 2009	-8,000,360	-7,148,430
Grantiau Cyfalaf a Chyfraniadau	-36,530	-851,930
Grantiau Cyfalaf a Chyfraniadau	7,998,500	
Balans ar 31ain Mawrth 2010	**-38,390**	**-8,000,360**

23. BUDDIANNAU MEWN CWMNÏAU

Nid oes gan yr Awdurdod fuddsoddiadau mewn is-gwmnïau a chwmnïau cysylltiedig.

24. DARPARIAETHAU

Mae darpariaeth o £14,330 wedi ei gwneud ar gyfer rhwymedigaethau wrth gefn sy'n ymwneud â dyledion amheus (darpariaeth o £20,000 yn 2008/09). Mae hyn yn cynrychioli oddeutu 10% o'r holl ddyledwyr ar 31 Mawrth 2010 ac eithrio dyledion adrannau llywodraeth ac awdurdodau lleol. Yn 2009/10 defnyddiwyd swm o £5,670 ar gyfer dileu dyledion drwg.

25. CRONFEYDD WRTH GEFN

(i) CRONFEYDD WRTH GEFN A GLUSTNODWYD

Mae'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd i bwrpasau penodol gan yr Awdurdod ar 31ain Mawrth 2010 fel a ganlyn:-

		2009/10 £	2008/09 £
1	Cronfeydd wrth gefn Refeniw a Chyfalaf Clustnodedig (Symiau wedi eu cymeradwyo fel gwariant refeniw a chyfalaf clustnodedig)	182,557	235,259
2	Cronfeydd Risgiau Penodol (i gwrdd â phwysau cyllidebol tebygol)	619,108	378,288
3	Cronfa Wrth Gefn Ymchwiliad Cyhoeddus (i gwrdd â chostau Ymchwiliad Cyhoeddus)	200,000	200,000
4	Cronfa Wrth Gefn Arian Refeniw Cyfatebol (I bwrpas Cronfa Cydgyfeiriant)	805,148	805,148
5	Cronfa Wrth Gefn Arian Cyfatebol _ CCGC (I bwrpasau Cronfa Cydgyfeiriant)	9,455	9,455
6	Cronfa Wrth Gefn Yswiriant (i gwrdd â rhwymedigaethau hunan-yswiriant)	12,750	12,750
7	Cronfa Wrth Gefn Hafod Eryri (Ar gyfer risgiau yn ymwneud â phrosiect Hafod Eryri)	325,000	325,000
8	Cronfa Wrth Gefn Arian Hafod Eryri (ar gyfer risgiau penodol yn gysylltiedig â'r prosiect)	28,478	83,800
9	Menter Treftadaeth Tref Dolgellau	85,901	-
10	Cymynrodd (at ddibenion Mynediad i'r Cyhoedd)	30,000	-
		2,298,397	**2,049,700**
11	Cronfa Derbynebion Cyfalaf Defnyddiadwy :	4,200	4,200
		2,302,597	**2,053,900**

(ii) CYFRIF ADDASIAD CYFALAF

Mae'r Cyfrif yn cronni (ar yr ochr debyd) y gostyngiad yng nghost hanesyddol asedau sefydlog fel y cânt eu defnyddio gan ddibrisiant ac amhariadau neu eu dileu wrth eu gwaredu. Mae'n cronni (ar yr ochr credyd) yr adnoddau a osodwyd o'r neilltu i gyllido gwariant cyfalaf. Mae'r un broses yn berthnasol i wariant cyfalaf sydd yn gyfalaf yn unig drwy ddiffiniad statudol. Mae'r balans ar y Cyfrif felly'n cynrychioli'r gwahaniaethau amseru rhwng cost hanesyddol asedau sefydlog a ddefnyddiwyd a'r swm a gyllidwyd yn unol â gofynion statudol.

	2009/10 £	2008/09 £
Balans ar 1 Ebrill 2009	9,052,610	9,214,120
Ailbrisio	-145,000	0
Addasiad i'r gwahaniaeth rhwng gwariant a gwerth	-71,480	-65,400
Ailddosbarthiad prydles	-4,720	0
Amhariad	-7,283,750	0
Darpariaeth Dibrisio	-378,020	-442,683
Ariannu Refeniw Uniongyrchol	250,470	321,035
Plws: Gostyngiad grantiau cyfalaf	7,656,700	129,438
Llai: Gostyngiad gwariant refeniw a ariennir o gyfalaf dan statud	-88,110	-103,900
Balans ar 31 Mawrth 2010	**8,988,700**	**9,052,610**

(iii) CRONFA AILBRISIO WRTH GEFN

Mae'r Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn yn cofnodi'r enillion cronedig ar asedau sefydlog sy'n cael eu dal gan yr Awdurdod ac sy'n deillio o gynnydd mewn gwerth o ganlyniad i chwyddiant neu ffactorau eraill (i'r graddau nad yw'r cynnydd hwn wedi cael ei ddefnyddio gan symudiadau dilynol tuag at i lawr mewn gwerth). Mae'r Gronfa Wrth Gefn hefyd yn cael ei debydu gyda symiau sy'n cyfateb i'r rhan o'r taliadau dibrisiant ar asedau a gafwyd, dim ond oherwydd fod yr ased wedi ei hailbrisio. Wrth eu gwaredu, mae balans y Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn ar gyfer yr ased a waredwyd yn cael ei ysgrifennu i lawr i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf. Mae'r balans cyffredinol ar y Gronfa Wrth gefn felly'n cynrychioli'r swm y mae gwerth cyfredol yr asedau sefydlog a geir yn y Fantolen yn uwch, oherwydd eu bod yn cael eu cario fel symiau ailbrisio yn hytrach na chostau hanesyddol dibrisiedig. Tra bod y cynnydd a ddaw yn sgil yr ailbrisio'n cynyddu gwerth net yr Awdurdod, dim ond petai'r asedau perthnasol yn cael eu gwerthu a chynhyrchu derbyniadau cyfalaf y buasent yn arwain at gynnydd mewn pŵer gwario.

Mae'r cynnydd o £45,000 yn y gronfa wrth gefn yn ymwneud â'r gwerth tir a gynhwyswyd ym mhrisiant Hafod Eryri .

	2009/10 £	2008/09 £
Balans ar 1 Ebrill 2009	525,000	0
ychwanegiadau	45,000	525,000
Balans ar 31 Mawrth 2010	**570,000**	**525,000**

(iv) CRONFA WRTH GEFN PENSIYNAU

Cyfrif balans yw hwn i ganiatáu cynnwys Rhwymedigaeth Bensiwn yn y Fantolen.

26. RHWYMEDIGAETHAU AMODOL AC ASEDAU AMODOL

Ni ddynodwyd unrhyw asedau penodol wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn.

Mae prosiect Hafod Eryri wedi ei gwblhau a chyfrif terfynol wedi ei dderbyn ond heb ei gytuno. Mae rhwymedigaeth yn deillio o'r prosiect ond nid oes gwariant ar ei gyfer wedi ei ddangos yn y cyfrifon oherwydd ni ellir mesur maint y rhwymedigaeth mewn modd digon dibynadwy.

27. DIGWYDDIADAU AR ÔL DYDDIAD Y FANTOLEN

Datganwyd gan Ganghellor y Trysorlys yn ei Gyllideb Brys ar 22 Mehefin 2010 y byddai defnydd o'r mynegai prisiau prynwr yn hytrach na'r mynegai prisiau manwerthiant fel sail i gynydd pensiynau'r sector gyhoeddus yn y dyfodol. Yn unol â pharagraff 21 o'r Safon Adrodd Ariannol 21 (Digwyddiadau ar ôl dyddiad y Fantolen), dynodir y newid hwn yn ddigwyddiad ar ôl dyddiad y Fantolen sydd ddim angen addasiad i'r cyfrifon. Amcangyfrifir y bydd y newid hwn yn lleihau gwerth rhwymedigaeth FRS 17 cyflogwr arferol yng Nghronfa Bensiwn Gwynedd o oddeutu 6-8% h.y. £1.5m - £2m ar gyfer yr Awdurdod hwn. Gwneir yr amcan hwn ar sail cyflogwr gyda phroffil aelodaeth "nodweddiadol".

Awdurdodwyd y cyfrifon archwiliedig gan y Prif Swyddog Cyllid a chymeradwywyd gan yr Awdurdod ar 15ed Medi 2010. Ar ddyddiad y barn archwilio ystyriwyd effaith pob digwyddiad ers 31/3/2010 ar y cyfrifon.

28. CRONFEYDD YMDDIRIEDOLAETH

Nid yw'r Awdurdod yn dal unrhyw Gronfeydd Ymddiriedolaeth ar ddiwedd y flwyddyn.

29. CRONFA BENSIWN

Mae Cyngor Gwynedd yn cynnal cynllun buddiant diffiniedig a ariennir yn statudol ar ran gweithwyr cyflogedig yr Awdurdod o dan Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 1997 fel y'u diwygiwyd.

Mae'r rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol ar i'r Awdurdod gynnal cronfa er budd ei weithwyr cyflogedig. Yn 2009/10 cyfrannodd gweithwyr at y gronfa ar raddfa statudol o rhwng 5.5% a 7.5% gan ddibynnu ar gyflog. Roedd gweithwyr llaw a oedd yn talu ar 5% cyn 31ain Mawrth 1998 yn cyfrannu 5. 5%.

Mae graddfeydd cyfraniadau'r Awdurdod yn cael eu pennu gan actwariaid cymwys proffesiynol y Gronfa, wedi eu seilio ar brisiannau teirblwydd o'r Gronfa, ac maent yn cael eu gosod gyda'r amcan y gellir cwrdd â rhwymedigaethau cyffredinol y Gronfa wrth gyfateb i gyfraniadau gweithwyr.

Yn ystod 2009/10 gwnaethpwyd cyfraniadau cyflogwyr o £683,529. *(2008/09: £672,850)*, ar raddfa o 20.2% (2008/09*: 20.2%*) o gyflog pensiynadwy. Ni chytunwyd ar unrhyw gynnydd disgresiwn yn y taliadau pensiwn yn ystod 2009/10. Roedd y taliadau gan yr Awdurdod yn ystod 2009/10 sy'n gysylltiedig â chynnydd disgresiwn a ddyfarnwyd mewn blynyddoedd blaenorol yn £28,967. (*2008/09: £28,942*).

Cydnabyddiaeth yn y Cyfrif Incwm a Gwariant

Blwyddyn yn gorffen :	**31 Mawrth 2010**		**31 Mawrth 2009**	
	£'000	**% o gyflog**	**£'000**	**% o gyflog**
Cost gwasanaeth presennol [1]	454	11.1	449	13.3%
Cost llog	968	23.7%	977	29%
Dychweliad disgwyliedig ar asedau cyflogwyr	(696)	(17.0%)	(914)	(27.2%)
Cost gwasanaeth y gorffennol / (ennill) [2]	0	0%	183	5.4%
Colledion / (Enillion) ar dalfyriadau a setliadau	0	0%	0	0%
Cyfanswm	726	17.8%	695	20.6%
Dychweliad gwirioneddol ar asedau'r cynllun	4,186		(2,631)	

[1] Mae ffigyrau'r costau gwasanaeth yn cynnwys lwfans ar gyfer costau gweinyddol o 0.4% o'r gyflogres.

[2] Mae ffigyrau'r costau gwasanaeth y gorffennol o £183,000 yn ymwneud â newidiadau ôl-weithredol i fuddiannau aelodau a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2008.

Aseswyd rhwymedigaethau ar sail actwaraidd, gan amcangyfrif y bydd pensiynau yn dod yn daladwy i'r dyfodol gan ddibynnu ar ragdybiaethau ynghylch graddfeydd marwoledd, lefelau cyflog, ayb. O dan y dull uned ragamcanedig o gyfrifo rhwymedigaethau, bydd y gost gwasanaeth presennol yn cynyddu fel bo aelodau'r cynllun yn dod i oed ymddeol.

Mae'r tabl isod yn dangos amcangyfrif rhwymedigaeth bensiwn net o £10.027M. am y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2010.

Mantolen

Blwyddyn yn gorffen :	**31 Mawrth 2010**	**31 Mawrth 2009**
	£(000)	**£(000)**
Gwerth teg Asedau Cyflogwr	15,254	10,394
Gwerth Presennol Rhwymedigaethau a Ariennir	(24,759)	(13,391)
(Tan)/ Gorariannu Net mewn cynlluniau a ariennir	(9,505)	(2,997)
Gwerth Presennol Rhwymedigaethau nad Ariennir	(522)	(438)
Cost Gwasanaeth Gorffennol na ddynodwyd	0	0
Ased/ (Rhwymedigaeth) Net	**(10,027)**	**(3,435)**
Swm yn y Fantolen - Rhwymedigaethau	10,027	3,435
Ased /(Rhwymedigaeth) Net	**(10,027)**	(3,435)

Mae'r canlynol yn ddatgeliadau ychwanegol sydd eu hangen o dan FRS17:-

a) Dychweliadau buddsoddiadau

Mae'r dychweliad ar y gronfa mewn termau gwerth marchnad am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2010 yn cael ei amcanu ar y dychweliadau Cronfa gwirioneddol fel y darperir hwy gan yr Awdurdod Gweinyddu a dychweliadau indecs ble bo angen.

Dychweliad gwirioneddol am y cyfnod o 1 Ebrill 2009 i 31 Rhagfyr 2009	30.0%
Dychweliad rhagamcanedig am y cyfnod 1 Ebrill 2009 i 31 Mawrth 2010	39.2%

b) Y prif gategorïau o asedau cynllun fel canran o'r asedau cynllun cyfan

Blwyddyn yn Gorffen :	**31 Mawrth 2010**		**31 Mawrth 2009**	
	£000's	**%**	**£000's**	**%**
Soddgyfrannau	11,748	77	7,559	72.7
Bondiau	2,288	15	1,450	14
Eiddo	915	6	828	8
Arian	303	2	557	5.3
Cyfanswm	**15,254**	**100**	**10,394**	**100**

c) Prif Ragdybiaethau Ariannol ar 31 Mawrth 2010

Rhagdybiaethau ar :	**31 Mawrth 2010 % y flwyddyn**	**31 Mawrth 2009 % y flwyddyn**	**31 Mawrth 2008 % y flwyddyn**	**31 Mawrth 2007 % y flwyddyn**
Cynnydd prisiau	3.8%	3.1%	3.6%	3.2%
Cynnydd cyflog	5.3%	4.6%	5.1%	4.7%
Cynnydd pensiwn	7.2%	6.5%	7.2%	3.2%
Graddfa disgownt	5.5%	6.9%	6.9%	5.4%

ch) Dychweliad disgwyliedig ar asedau yn ôl categori

Blwyddyn yn Gorffen :	**31ain Mawrth 2010**	**31ain Mawrth 2009**
	% y flwyddyn	**% y flwyddyn**
Soddgyfrannau	7.8%	7.0%
Bondiau	5%	5.4%
Eiddo	5.8%	4.9%
Arian	4.8%	4.0%

d) Marwoledd

Mae disgwyliad oes wedi ei seilio ar y tablau blwyddyn geni PMA92/PFA92, gyda gwelliannau o 2007 yn unol â'r garfan ganolig a thanategu o 1% y.f. . Ar sail y rhagdybiaethau hyn, crynhoir y disgwyliadau bywyd yn 65 oed fel a ganlyn:

	Dynion	Merched
Pensiynwyr Presennol	20.8 blwyddyn	24.1 blwyddyn
Pensiynwyr y Dyfodol	22.3 blwyddyn	25.7 blwyddyn

dd) Marwoledd Hanesyddol

Mae disgwyliad oes ar gyfer y blynyddoedd isod wedi eu seilio ar dablau PFA92 a PMA92. Mae'r lwfans ar gyfer disgwyliad oes i'r dyfodol fel a ganlyn :

Blwyddyn yn Gorffen	Darpar Bensiynwyr	Pensiynwyr
31 Mawrth 2010	Blwyddyn geni, carfan ganolig ac isafswm gwelliannau 1% y.f. o 2007	Blwyddyn geni, carfan ganolig ac isafswm gwelliannau 1% y.f. o 2007
31 Mawrth 2009	Blwyddyn galendr 2033	Blwyddyn galendr 2017
31 Mawrth 2008	Blwyddyn galendr 2033	Blwyddyn galendr 2017
31 Mawrth 2007	Blwyddyn galendr 2017	Blwyddyn galendr 2004
31 Mawrth 2006	Blwyddyn galendr 2004	Blwyddyn galendr 2004

Mae'r graddfeydd oed yn cael eu cymhwyso i'r uchod wedi ei seilio ar broffil aelodau.

e) Cymudiad

Cynhwysir lwfans ar gyfer ymddeoliadau'r dyfodol i ethol i gymryd 50% o arian di-dreth ychwanegol hyd at derfynau'r HMRC ar gyfer gwasanaeth cyn Ebrill 2008 a 75% o'r uchafswm arian di-dreth am wasanaeth ôl Ebrill 2008.

f) Ased Pensiwn Net

Asedau Pensiwn Net ar :	**31/3/10 £ '000**	**31/3/09 £ '000**	**31/3/08 £ '000**	**31/3/07 £ '000**	**31/3/06 £ '000**
Gwerth teg Ased cyflogwr	**15,254**	**10,394**	**12,424**	**12,507**	**11,160**
Gwerth presennol Rhwymedigaeth Buddiannau Diffiniedig	(25,281)	(13,829)	(13,896)	(16,490)	(16,220)
Swrplws / (Diffyg)	(10,027)	(3,435)	(1,472)	(3,983)	(5,060)
Enillion/ (Colledion) Profiad ar Asedau	22.9%	(34.4%)	(11.8%)	0.1%	13.5%
Enillion/ (Colledion) Profiad ar Rwymedigaethau	0%	0%	4.6%	0.1%	0.1%

ff) Cysoniad gwerth presennol o Rwymedigaethau'r Cynllun:

Blwyddyn yn Gorffen :	**31 Mawrth 2010 £000's**	**31 Mawrth 2009 £000's**
Goblygiadau buddiannau ar ddechrau'r flwyddyn	**13,829**	**13,896**
Cost gwasanaeth presennol	454	449
Llog ar Rwymedigaethau	968	977
Cyfraniadau aelodau	247	217
(Enillion)/ Colledion Actwaraidd ar Rwymedigaethau	10,068	(1,569)
Costau gwasanaeth gorffennol	0	183
Buddiannau heb eu hariannu a dalwyd	(29)	(29)
Buddiannau a dalwyd	(256)	(237)
Goblygiadau buddiannau ar ddiwedd blwyddyn	**25,281**	**13,829**

g) **Cysoniad gwerth presennol Asedau'r Cynllun:**

Blwyddyn yn Gorffen :	**31 Mawrth 2010 £000's**	**31 Mawrth 2009 £000's**
Gwerth teg ar ddechrau'r flwyddyn	**10,394**	**12,424**
Dychweliad disgwyliedig ar asedau cynllun	696	914
Cyfraniadau aelodau	247	217
Cyfraniadau cyflogwr	684	709
Cyfraniadau yng nghyswllt Buddiannau heb eu hariannu	29	29
Enillion/(Colledion) Actwaraidd ar Rwymedigaethau	3,489	(3,575)
Buddiannau heb eu hariannu a dalwyd	(29)	(29)
Buddiannau a dalwyd	(256)	(295)
Gwerth teg ar ddiwedd blwyddyn	**15,524**	**10,394**

ng) Swm a ddynodir yn y Datganiad o'r Cyfanswm Enillion a Cholledion Dynodedig (STRGL)

Blwyddyn yn Gorffen :	**31 Mawrth 2010**	**31 Mawrth 2009**	**31 Mawrth 2008**	**31 Mawrth 2007**	**31 Mawrth 2006**
	£000's	**£000's**	**£000's**	**£000's**	**£000's**
Enillion/ (Colledion) Actwaraidd	(6,579)	(2,006)	2,439	1,193	(694)
Cynnydd / (Gostyngiad) mewn Swrplws na Ellir ei Adennill oddi wrth ostyngiad Aelodaeth a ffactorau eraill	0	0	0	0	0
Enillion/ (Colledion) Actwaraidd a ddynodir yn yr STRGL	(6,579)	(2,006)	2,439	1,193	(694)
Enillion a Cholledion Actwaraidd Cronnus	(8,826)	(2,247)	(241)	(2,680)	(3,873)

h) Swm rhagamcanedig taliadau i'w talu i'r cynllun ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2011

Blwyddyn yn Gorffen :	**31 Mawrth 2011**	
	£ (000)	**% o gyflog**
Cost rhagamcanedig gwasanaeth presennol	802	24.1%
Llog ar rwymedigaeth	1,408	42.3%
Dychweliad disgwyliedig ar asedau cynllun	(1,118)	(33.6%)
Cost gwasanaeth yn y gorffennol	0	0
Colledion / (Enillion) ar Dalfyriadau a Setliadau	0	0
Cyfanswm	**1,092**	**32.8%**

Amcangyfrifir bod cyfraniadau y cyflogwr am y flwyddyn i 31 Mawrth 2011 yn £672,000. Mae cost racamcanedig y gwasanaeth presennol yn cynnwys lwfans ar gyfer costau gweinyddu o 0.4% o gyflog.

30. NODIADAU SY'N GYSYLLTIEDIG Â'R DATGANIAD LLIF ARIAN PAROD

2008/09		**2009/10**
£	**Rheoli Adnoddau Hylifol:**	**£**
88,350	Cynnydd (-) / Gostyngiad mewn Arian mewn Llaw ac yn y Banc	**-697,360**
153,580	Cynnydd (-) / Gostyngiad mewn Buddsoddiadau Tymor Byr	**394,980**
241,930		**-302,380**
£	**Cysoni Gwarged i Weithgareddau Refeniw Net :**	**£**
88,710	Cyfraniadau Net o / i (-) Cronfeydd wrth gefn	**-248,700**
1,229,330	Cynnydd (-) / Gostyngiad mewn Credydwyr	**-67,340**
-661,820	Cynnydd / Gostyngiad (-) mewn Dyledwyr	**33,320**
17,880	Cynnydd / Gostyngiad (-) mewn Stoc	**-8,640**
-280,800	Cyfraniadau Refeniw i Wariant Cyfalaf	**-250,470**
103,900	Gwariant refeniw wedi ei gyllido o gyfalaf yn ôl deddf	**88,110**
497,200		**-453,720**
£	**Dadansoddiad o'r Grantiau Cyfalaf Dderbyniwyd:**	**£**
6,970	Croeso Cymru	**15,000**
542,690	Llywodraeth Cynulliad Cymru	**112,930**
5,380	Cyngor Cefn Gwlad Cymru	**0**
774,140	Swyddfa Ariannu Ewropeaidd Cymru	**0**
150,000	Rheilffordd yr Wyddfa	**0**
1,479,180		**127,930**

DATGANIAD CYFRIFOLDEB AM Y DATGANIAD CYFRIFON

CYFRIFOLDEBAU'R AWDURDOD

Mae'n ofynnol ar i'r Awdurdod:-

- Wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu priodol ei faterion ariannol ac i sicrhau fod un o'i swyddogion gyda chyfrifoldeb am weinyddu'r materion hynny. Yn achos Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, y swyddog hwnnw yw'r Prif Swyddog Cyllid;
- Rheoli ei faterion er mwyn sicrhau defnydd economaidd, effeithlon, ac effeithiol o'i adnoddau a diogelu ei asedau;
- Cymeradwyo ei ddatganiad cyfrifon.

Cymeradwywyd y cyfrifon gan yr Awdurdod ar y 15fed Medi 2010.

Cyng. E.Caerwyn Roberts Dyddiad : 15fed Medi 2010
Cadeirydd

CYFRIFOLDEBAU'R PRIF SWYDDOG CYLLID

Mae'r Prif Swyddog Cyllid yn gyfrifol am baratoi Datganiad Cyfrifon yr Awdurdod yn unol ag arferion priodol a amlinellir yn y CIPFA/LASAAC Cod Ymddygiad ar Gyfrifyddu Llywodraeth Leol yn y DU ('y SORP').

Wrth baratoi'r datganiadau cyfrifon, mae'r Prif Swyddog Cyllid wedi:-

- Dethol polisïau cyfrifyddu addas ac yna eu cymhwyso'n gyson;
- Gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon a oedd yn rhesymol a doeth;
- Cydymffurfio â'r SORP awdurdod lleol.

Mae'r Prif Swyddog Cyllid hefyd wedi:-

- Cadw cofnodion cyfrifyddu cywir a oedd yn gyfredol;
- Cymryd camau rhesymol i rwystro a darganfod twyll ac anghysonderau eraill.

TYSTYSGRIF Y PRIF SWYDDOG CYLLID

'Rwy'n tystio fod y Datganiadau Cyfrifon wedi cael eu paratoi'n unol â Chyfrifon Llywodraeth Leol a Rheoliadau Archwilio ac yn rhoi barn gywir a theg o sefyllfa ariannol yr Awdurdod ar y dyddiad cyfrifyddu a'i incwm a gwariant i'r flwyddyn yn gorffen 31ain Mawrth 2010.

D.L.Edwards Dyddiad : 2ail Medi 2010
Prif Swyddog Cyllid

Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol i Aelodau Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Rwyf wedi archwilio datganiadau cyfrifyddu a nodiadau cysylltiedig:

- **Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**

am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae datganiadau cyfrifyddu Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn cynnwys y Cyfrif Incwm a Gwariant, y Datganiad Symud ar Falans Cronfa'r Cyngor, Datganiad o Gyfanswm yr Enillion a'r Colledion Cydnabyddedig, Mantolen, Datganiad Llif Arian Parod. Paratowyd y datganiadau cyfrifyddu o dan y polisïau cyfrifyddu a nodir yn y Datganiad o Bolisïau Cyfrifyddu.

Cyflwynir yr adroddiad hwn i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn unig yn unol â Rhan 2 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac nid at unrhyw ddiben arall, fel y nodir yn y *Datganiad o gyfrifoldebau'r archwilwyr* a baratowyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Priod gyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol a'r archwilydd annibynnol
Nodir cyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol am baratoi'r datganiad cyfrifon, yn unol â'r gofynion cyfreithiol a rheoliadol perthnasol a'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2009 yn y Datganiad o Gyfrifoldebau am y Datganiad o Gyfrifon.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig yn unol â'r gofynion cyfreithiol a rheoliadol perthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon).

Cyflwynaf adroddiad i chi ar fy marn o ran p'un a yw'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig yn rhoi darlun cywir a theg o'r canlynol, yn unol â'r gofynion cyfreithiol a rheoliadol perthnasol a'r Datganiad o Arfer a Argymhellir ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2009:

- sefyllfa ariannol y corff llywodraeth leol a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn

Adolygaf a yw'r Datganiad Rheolaeth Fewnol yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â 'The statement on internal control in local government: meeting the requirements of the Accounts and Audit Regulations 2003' a gyhoeddwyd gan CIPFA ym mis Ebrill 2004. Nodaf os nad yw'n cydymffurfio ag arferion cywir a nodir gan CIPFA neu os yw'r datganiad yn gamarweiniol neu'n anghyson â gwybodaeth arall rwyf yn ymwybodol ohoni o'm harchwiliad. Nid yw'n ofynnol i mi ystyried, ac nid wyf wedi ystyried, p'un a yw'r Datganiad Rheolaeth Fewnol yn cwmpasu'r holl risgiau a rheolaethau. Ac nid yw'n ofynnol i mi lunio barn ychwaith ar effeithiolrwydd gweithdrefnau llywodraethu corfforaethol y corff llywodraeth leol na'i weithdrefnau risg a rheoli.

Rwyf yn darllen gwybodaeth arall a gyhoeddir gyda'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig, ac yn ystyried p'un a yw'n gyson â'r datganiadau cyfrifyddu a archwiliwyd a'r nodiadau cysylltiedig. Mae'r wybodaeth arall hon yn cynnwys y Rhagair Esboniadol yn unig. Rwyf yn ystyried y goblygiadau i'm hadroddiad os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau amlwg neu anghysondebau perthnasol â'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig. Nid yw fy nghyfrifoldebau yn ymestyn i unrhyw wybodaeth arall.

Sail y farn archwilio
Cynhaliais fy archwiliad yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, y Cod Ymarfer Archwilio a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, a'r Safonau Archwilio

Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon) a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae archwiliad yn cynnwys ystyried, ar sail prawf, dystiolaeth sy'n berthnasol i'r symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon a'r dyfarniadau arwyddocaol a wnaed gan y corff llywodraeth leol wrth baratoi'r datganiadau cyfrifyddu, a ph'un a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau'r corff llywodraeth leol, yn cael eu cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol.

Cynlluniwyd a chynhaliwyd fy archwiliad er mwyn cael yr holl wybodaeth ac esboniadau yr oedd eu hangen yn fy marn i i roi tystiolaeth ddigonol i mi roi sicrwydd rhesymol nad oes camddatganiad perthnasol yn y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig, boed hynny drwy dwyll neu afreoleidd-dra neu wall arall. Wrth lunio fy marn rwyf hefyd wedi gwerthuso digonolrwydd cyffredinol y modd y cyflwynwyd gwybodaeth yn y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig.

Barn ar ddatganiadau cyfrifyddu Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Yn fy marn i, mae'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ar 31 Mawrth 2010 a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny, yn unol â'r gofynion cyfreithiol a rheoliadol perthnasol a'r Datganiad o Arfer a Argymhellir ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2009.

Casgliad ar y trefniadau ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y defnydd o adnoddau
Cyflwynir fy nghasgliad o ran trefniadau Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010 ar wahân yn y Llythyr Archwilio Blynyddol cyhoeddedig.

Tystysgrif cwblhau
Ardystiaf fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'r Cod Ymarfer Archwilio a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Ceri Stradling **- Archwilydd Penodedig**
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Dyddiad 29ain Medi 2010

(Cyfrifoldeb yr Awdurdod yw cynnal a chadw gwefan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a sicrhau ei chywirdeb; nid yw'r gwaith a gynhaliwyd gan yr archwilwyr yn cynnwys ystyried y materion hyn ac, yn unol â hynny, nid yw'r archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau y gellid bod wedi'u gwneud i'r datganiad cyfrifon ers iddo gael ei roi ar y wefan yn gyntaf.)

DATGANIAD AR REOLAETH FEWNOL

1. CWMPAS CYFRIFOLDEB

1.1 Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn gyfrifol am sicrhau bod ei fusnes yn cael ei gynnal yn unol â'r gyfraith a safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a'i gyfrifyddu'n gywir, a'i ddefnyddio'n economaidd, yn effeithlon ac yn effeithiol. Mae gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri hefyd ddyletswydd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1999 i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn y modd mae ei swyddogaethau yn cael eu cyflawni, gan ystyried cyfuniad o economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd. Yn ogystal mae'r Awdurdod yn "awdurdod gwella" yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 sy'n gosod rhwymedigaeth ar awdurdodau i gyhoeddi eu hamcanion gwella ar ddechrau'r flwyddyn ariannol ac i wybodaeth yr ail wedd gael ei chyhoeddi cyn 31 Hydref yn ystod y flwyddyn ariannol ar ôl y flwyddyn y mae'r wybodaeth yn berthnasol iddi.

1.2 Wrth gyflawni'r cyfrifoldeb cyffredinol hwn, mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod ganddo system gadarn o reolaeth fewnol sy'n hwyluso ymarferiad effeithiol o swyddogaethau Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ac sy'n cynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg.

2. PWRPAS Y SYSTEM REOLAETH FEWNOL

2.1 Mae'r system reolaeth fewnol wedi ei dylunio i reoli risg ar lefel resymol yn hytrach na dileu pob risg o fethiant o gyflawni polisïau, nodau ac amcanion; felly dim ond sicrwydd rhesymol ac nid absoliwt o effeithiolrwydd y gellir ei darparu. Mae'r system reolaeth fewnol wedi ei seilio ar broses barhaus sydd wedi ei dylunio i ddynodi a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, i werthuso'r tebygolrwydd o'r risgiau'n cael eu gwireddu a'r effaith petai hynny'n digwydd, ac i'w rheoli yn effeithlon, yn effeithiol ac yn economaidd.

2.2 Bu'r system reolaeth fewnol yn ei lle yn yr Awdurdod i'r flwyddyn yn gorffen 31ain Mawrth 2010 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a chyfrifon.

3. YR AMGYLCHEDD RHEOLAETH FEWNOL

3.1 Sefydlu a Monitro Cyflawniad Amcanion yr Awdurdod

Amlinellir isod y modd mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn gosod ei amcanion gweledigaeth a gwella.

Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn sefydlu ei gyfeiriad strategol trwy fabwysiadu nifer o ddogfennau. Adlewyrchir Gweledigaeth Gorfforaethol a Chanlyniadau Blaenoriaeth ac Amcanion Corfforaethol yr Awdurdod yn ei holl gynlluniau a dogfennau ac mae'n bwydo i'r cyfan o waith yr Awdurdod.

Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol, a sefydlwyd gan Ddeddf yr Amgylchedd 1995 yn cynnwys deunaw o Aelodau. Yr Awdurdod yw corff llywodraethu'r Parc Cenedlaethol ac mae'n sefydlu Gweledigaeth a Chanlyniadau Blaenoriaeth ac Amcanion Corfforaethol y Parc. Mae ganddo hefyd y cyfrifoldeb cyffredinol am adolygu perfformiad.

Mae'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau yn cynnwys 9 Aelod. Mae'n goruchwylio cyflenwad Rhaglen Cymru ar Gyfer Gwella o fewn yr Awdurdod. Cyfarfu'r pwyllgor dair gwaith yn ystod 2009/10.

Yn 2009/10, roedd un Gweithgor Aelodau / Swyddogion sydd wedi cymryd lle'r cyn weithgor Prosiectau a Pholisïau a'r Gweithgor Archwilio, Perfformiad, Datblygu Staff ac Aelodau.

Yn 2009/10, roedd trefniant i'r gweithgor gyfarfod chwe gwaith yn ystod y flwyddyn neu fwy os oedd angen. Roedd yn cynnwys pob un o Aelodau'r Awdurdod, a phob un yn gyfrifol am gydweithio'n agos ac mewn partneriaeth â'r swyddogion i drafod gwaith yr Awdurdod mewn manylder. Mae'r Gweithgor hefyd yn meddu ar y swyddogaethau a ganlyn:

- I gynghori ar ffurfio polisïau
- I gynghori ar brosiectau a mentrau arfaethedig
- I baratoi adroddiadau ac argymhellion ar unrhyw fater a gyfeirir at y Gweithgor fel Grŵp Tasg a Gorffen gan yr Awdurdod neu unrhyw Bwyllgor yr Awdurdod.
- O fewn ei gylch gorchwyl i hyrwyddo a chynghori ar weithredu a chymhwyso egwyddorion datblygiad cynaliadwy a chynhwysedd cymdeithasol ar draws gweithgareddau Awdurdod y Parc Cenedlaethol.

Cymeradwywyd rhaglen waith ar gyfer y Gweithgor Aelodau yn 2009/10 gan y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar 24 Mehefin 2009.

3.2 Sicrhau Cydymffurfiad â Pholisïau, Gweithdrefnau, Cyfreithiau a Rheoliadau

Mae'r Awdurdod wedi dynodi'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol a Chyfreithiol fel Swyddog Monitro. Swyddogaeth y Swyddog Monitro yw sicrhau

cydymffurfiad â'r polisïau, gweithdrefnau, cyfreithiau a rheoliadau sefydledig. Os yw'r Swyddog Monitro yn ystyried y gallai unrhyw gynnig, penderfyniad neu esgeulustod arwain at anghyfreithlondeb neu gamweinyddu, bydd y Swyddog Monitro yn adrodd ar y mater i'r Awdurdod llawn. Bydd gan adroddiad o'r fath yr effaith o rwystro gweithrediad ar y cynnig neu benderfyniad hyd nes y bo'r adroddiad wedi cael ei ystyried.

3.3 Rheoli Risg

Mae'r Awdurdod, trwy weithgareddau'r Grŵp Rheoli Risg sydd wedi ei seilio ar swyddogion, wedi ymgymryd â phroses systematig o ddynodi a gwerthuso risg, sydd wedi ei dylunio i roi ffocws a blaenoriaethau clir i'r Awdurdod ar gyfer lleihau a lliniaru risg.

Adroddodd Marsh yn gyntaf ar sefyllfa'r Awdurdod yn 2002, ac ers hynny mae wedi adolygu sefyllfa'r Awdurdod yn ddilynol yn 2006, gan asesu'r cynnydd a wnaed yn ystod y cyfnod hwn a dynodi, ble y bo'n briodol, risgiau newydd.

Mae'r risgiau a ddynodwyd wedi eu henwebu i 'berchnogion risg' er mwyn dynodi mesurau lliniaru risgiau cyfredol a rhai i'r dyfodol. Mae risgiau wedi eu dosbarthu ymhellach i bedair gradd blaenoriaeth, sef Uchel, Canolig, Isel a Pharhaus. Ar gyfer y tair cyntaf, bydd y dosbarthiad yn cael ei ddefnyddio dros gyfnod o dair blynedd gyda risgiau blaenoriaeth uchel yn cael eu hystyried yn y flwyddyn gyntaf, y rhai canolig yn yr ail a'r rhai isel yn y drydedd.

Mae'r Grŵp Rheoli Risg yn cyfarfod yn chwarterol ac yn adolygu Cofrestr Risg yr Awdurdod, sy'n cynnwys :

- adolygu cynnydd mewn lliniaru'r risgiau a ddynodwyd yn flaenorol,
- symud y risgiau hynny a liniarwyd mor gyflawn â phosibl i'r adran honno o'r Gofrestr Risgiau a ddynodir "Risgiau a Ddilëwyd",
- a dynodi risgiau newydd a'r mesurau lliniaru sydd eu hangen.

Mae'r prif risgiau i'r Awdurdod yn cael eu hymgorffori i'r Rhaglen Waith Gorfforaethol a chyfrifoldeb am eu lliniaru'n cael ei ddyrannu i swyddogion penodol. Mae'r cynnydd mewn lliniaru'n cael ei adrodd i bob cyfarfod o'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau trwy adroddiad ar y Rhaglen Waith Gorfforaethol. Yn ychwanegol, adroddir ar y proffil risg cyflawn i'r Awdurdod ym mis Chwefror bob blwyddyn.

3.4 Rhaglen Cymru ar Gyfer Gwella

Trwy adolygiad gan archwilwyr allanol, Archwiliad Mewnol, yr Aelodau a'i Dîm Rheoli, mae'r Awdurdod yn gyson yn chwilio am ffyrdd o ddefnyddio adnoddau yn economaidd, yn effeithiol ac yn effeithlon, ac i sicrhau gwelliant parhaus ac arbedion effeithiolrwydd yn y ffordd y mae'n cyflawni ei swyddogaethau, gan

ystyried cyfuniad o economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd fel sy'n ofynnol gan Raglen Cymru ar Gyfer Gwella.

3.5 Rheolaeth Ariannol

Mae ein system reolaeth ariannol yn cynnwys

- Fframwaith blynyddol ar gyfer gosod cyllidebau, yn cynnwys cynhyrchu rhagolygon tair blynedd, wedi ei seilio ar ffigyrau dangosol a ddarperir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i bwrpasau cynllunio.
- Gwybodaeth rheoli a monitro mewn-blwyddyn rheolaidd yn cael ei darparu i Reolwyr gyda chrynodebau yn cael eu darparu i Bwyllgorau.
- Gweithdrefnau gweinyddol yn cynnwys gwahanu dyletswyddau a system o ddirprwyo ac atebolrwydd.
- Gwybodaeth ariannol fanwl (yn cynnwys Cyfrifon Statudol) sy'n berthnasol i ddefnyddwyr mewnol ac allanol.
- Rheoliadau Ariannol, gweithdrefnau a pholisïau wedi eu dogfennu.
- Adolygiad o Archwiliad Mewnol ac Allanol.

3.6 Rheoli Perfformiad

Mae gan yr Awdurdod fframwaith rheoli perfformiad effeithiol a yrrir gan ei Gynllun Busnes a Gwella. Mae'r Cynllun Busnes a Gwella yn canoli sylw ar Ganlyniadau Blaenoriaeth ac Amcanion Corfforaethol yr Awdurdod ac yn gosod y targedau allweddol ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod, sy'n anelu at sicrhau bod yr Awdurdod yn cyflawni ei Ganlyniadau Blaenoriaeth ac Amcanion Corfforaethol. Mae perfformiad yn cael ei gofnodi yn erbyn dangosyddion a osodir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, y tri Pharc Cenedlaethol yng Nghymru a'r Awdurdod. Mae hyn yn rhaeadru i lawr i'r Cynllun Gwaith Corfforaethol a ddarperir ar ddechrau pob blwyddyn ariannol ac mae'n amlinellu'r targedau gwaith mawr ar gyfer pob adran yn yr Awdurdod. Mae'r Awdurdod trwy ei Bwyllgor Perfformiad ac Adnoddau yn monitro ac yn archwilio cynnydd yn erbyn targedau a pherfformiad mewn meysydd blaenoriaeth sy'n effeithio ar y maes gwasanaeth perthnasol, ac yn ystyried ac yn cymeradwyo gweithrediadau cywiro pan fo angen.

Mae Canlyniadau Blaenoriaeth ac Amcanion Corfforaethol yr Awdurdod a'r risgiau a gofnodir ar Gofrestr Risg yr Awdurdod yn cael eu cydweddu â Rhaglen Waith Gorfforaethol yr Awdurdod i sicrhau cysondeb. Yn ychwanegol, mae'r Awdurdod yn parhau i wneud cynnydd â'r broses o weithredu'r System Rheoli Perfformiad Cymru-gyfan a elwir yn "Ffynnon", a fydd yn sicrhau adrodd yn ôl yn rheolaidd ar dargedau, ac a fydd yn cynorthwyo gyda datblygu set gytbwys o Ddangosyddion Perfformiad gyda'r ddau Barc arall.

4. ADOLYGU EFFEITHIOLRWYDD

4.1 Mae gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri gyfrifoldeb am gynnal, o leiaf yn flynyddol, adolygiad o effeithiolrwydd y system reolaeth fewnol. Rhoddir gwybodaeth i'r adolygiad effeithiolrwydd ar y system reolaeth fewnol gan waith yr archwilwyr mewnol a'r rheolwyr gweithredol o fewn yr Awdurdod sydd â chyfrifoldeb am ddatblygu a chynnal yr amgylchedd rheolaeth fewnol, a hefyd gan sylwadau a wneir gan yr archwilwyr allanol ac asiantaethau adolygu ac arolygiaethau eraill.

4.2 Yr Awdurdod

Yr Awdurdod llawn sydd â'r prif gyfrifoldeb am swyddogaethau Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Mae wedi dirprwyo pwerau gwneud penderfyniadau i Bwyllgorau ac Is-bwyllgorau a Swyddogion er mwyn caniatáu gwneud penderfyniadau yn gyflym ac yn effeithiol gan swyddogion o fewn fframwaith o atebolrwydd i'r Llywodraeth a phobl leol. Mae hefyd wedi penodi Gweithgor o Aelodau i'w gynghori ar gyflawni ei swyddogaethau a Fforymau eraill i gynnwys y gymuned a chyrff eraill â diddordeb ar faterion sy'n berthnasol i reolaeth y Parc Cenedlaethol.

Yn gyffredinol, gweithredir y cynllun i osgoi dyblygu gweithrediadau busnes. Mae pwerau wedi eu dirprwyo'n sylweddol i wneud gwariant neu godi incwm ar gyfer pwrpas cymeradwy, sydd o fewn polisi a chyllideb, yn destun i reolaeth lem gan y Rheoliadau Ariannol. Mae holl Aelodau'r Awdurdod yn Aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio a Mynediad.

4.3 Y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau

Yn 2009/10, roedd gan y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau gylch gorchwyl ym meysydd Rheolaeth Ariannol, Gwella, Staff, Rheoli Risg Eiddo, Plas Tan y Bwlch ac Archwiliad Mewnol. Mae ei aelodaeth yn cynnwys 6 Aelod Awdurdod Lleol a 3 Aelod a Benodir gan y Cynulliad Cenedlaethol.

4.4 Y Pwyllgor Safonau

Swyddogaeth gyffredinol y pwyllgor safonau yw hybu a chynnal safonau ymddygiad uchel gan Aelodau ac Aelodau Enwebedig yr Awdurdod, ac i gynorthwyo Aelodau ac Aelodau Enwebedig yr Awdurdod i lynu at y cod ymddygiad. Mae ei aelodaeth yn cynnwys dau aelod Awdurdod Lleol, un aelod Cynulliad Cenedlaethol a thri aelod Annibynnol.

4.5 **Archwiliad Mewnol**

Cytunir ar Gynllun Archwilio yn flynyddol gyda'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol (a ddarperir gan Gyngor Gwynedd) i adolygu'r system reolaeth fewnol. Amcan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yw darparu sicrwydd i'r Prif Swyddog Cyllid, a thrwy hynny'r Awdurdod llawn, fod yr adnoddau hynny sydd ar gael yn cael eu rheoli a'u defnyddio'n briodol, gyda thrylwyredd.

Yn 2009/10, cynhaliodd yr Uned Archwilio Mewnol archwiliadau ar Ôl-troed Carbon yr Awdurdod, ynghyd â Rheolaeth Fflyd, Lwfansau Teithio a Threuliau a Phwrcasu "Gwyrdd" (yr archwiliad hwn i ymestyn dros 2009/10 a 2010/11).

'Roedd adroddiad blynyddol Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ym mis Mehefin 2010 yn datgan fod gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, yn ei farn ef, fframwaith o reolaethau mewnol sy'n rhoi sicrwydd rhesymol ynghylch diogelwch adnoddau a gallu'r Awdurdod i gyflawni ei amcanion.

5. MATERION RHEOLAETHOL MEWNOL SYLWEDDOL

Mae'r Awdurdod yn gyfrifol am gynnal adolygiad effeithiolrwydd blynyddol o'i systemau rheolaeth fewnol. Rhoddir gwybodaeth i'r adolygiad hwn gan waith Archwilwyr Mewnol ac Allanol yr Awdurdod, Aelodau'r Awdurdod, a'i Bwyllgorau a Rheolwyr Corfforaethol sydd â chyfrifoldeb am ddatblygu a chynnal yr amgylchedd rheolaeth fewnol. Dynodwyd y canlynol fel materion rheolaeth fewnol sylweddol:

Mater	**Gweithrediad**
Bydd setliadau grant y Cynulliad am y tair blynedd nesaf yn arwain at bwysau ariannol ar yr Awdurdod yng nghyd-destun costau cynyddol anochel i'r dyfodol.	Mae'n ddyletswydd statudol ar yr Awdurdod i osod cyllideb gytbwys. Ar hyn o bryd, mae'r Awdurdod yn cynhyrchu rhagolwg cyllideb ar ffigyrau cynllunio tair blynedd o'r Cynulliad. Mae'r penderfyniadau i wneud gwariant ar waelodlin (parhaus) neu ar sail untro yn cael ei arwain gan argaeledd adnoddau ariannol i'r dyfodol, yn ôl gwybodaeth bresennol ynghylch y Grant Parc Cenedlaethol, gwariant ac amcangyfrifon incwm. Yn dilyn yr adroddiad cychwynnol i'r Awdurdod ar 11eg Chwefror 2009, mae'r Prif Weithredwr wedi arwain ar ymarfer adolygiad cyllideb ar gyfer pob gwasanaeth ac adroddwyd ynghylch yr arbedion a bennwyd i'r Awdurdod ar 30ain Medi 2009. Mae'r arbedion a gymeradwywyd gan yr Awdurdod wedi'u cynnwys yng nghyllideb 2010/11 a rhagolygon cyllideb 3 blynedd. Mae'r Awdurdod wedi nodi un o'i ganlyniadau blaenoriaeth ar gyfer 2010-2013 fel "*Yr Awdurdod yn parhau i weithredu'n effeithiol a darparu gwasanaeth i bawb o fewn yr adnoddau sydd ar gael iddo*". Bydd yr Awdurdod yn parhau i ystyried a blaenoriaethu dyraniad cyllideb gyda'r amcan o osod cyllideb gynaliadwy a chytbwys.
Mae Prosiect Hafod Eryri yn cyflwyno risgiau ariannol ac anariannol sylweddol i'r Awdurdod.	Mae'r prosiect wedi ei gwblhau; fodd bynnag, mae eglurhad o'r sefyllfa gytundebol yn parhau.
Mae angen i'r Awdurdod barhau i fonitro effaith y diffyg yn y Gronfa Bensiwn sy'n cynrychioli risg ariannol sylweddol.	Mae'r diffyg yn cael ei fonitro yn unol ag adroddiad blynyddol yr actwari ac yn cael ei adolygu yn fanwl yn y gwerthusiad tair blynedd. Mae graddfa cyfraniadau'r Awdurdod yn unol ag argymhelliad yr actwari, a disgwylir i'r lefel hon o gyfraniadau ddod â'r Awdurdod i safle cyllid-llawn dros 20 mlynedd. Mae'r diffyg, a fesurwyd yn unol â 'FRS17' fel y nodwyd yn y Datganiad o Gyfrifon hwn wedi cynyddu'n sylweddol er 31/3/2009, ond mae symudiad o'r fath yn ffigurau 'FRS17' yr holl gyflogwyr rhwng 31 Mawrth 2009 a 31 Mawrth 2010 yn bennaf yn sgil defnydd o arenillion bondiau corfforaethol (wrth gyfrifo "gwir gyfradd y disgownt" yn unol â rheolau cyfrifo safonol) fel sail werthuso, a therfysg digynsail ac afreolaidd o fewn y marchnadoedd bondiau corfforaethol dros 2009/10.

	Gallai cynnydd gwirfoddol pellach yn y raddfa cyfraniadau leihau'r risg gyda golwg ar ariannu'r diffyg cyn diwedd y cyfnod adenilliad o 20 mlynedd, ond mae lefel setliad grant presennol a rhagweledig y Cynulliad yn ei gwneud yn annhebygol y gallai'r Awdurdod wneud unrhyw gynnydd gwirfoddol o'r fath yng ngraddfa ei gyfraniadau yn y dyfodol hyd y gellid ei ragweld. Mae hefyd angen edrych yn yr hir dymor ar y ddarpariaeth pensiynau, a bydd angen asesiad proffesiynol ystyriol (yn hytrach nag ymateb yn ddifeddwl i'r "ciplun" fel yr oedd ar 31 Mawrth 2010). Felly mae'r Awdurdod yn disgwyl canlyniadau'r gwerthusiad teirblynyddol a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2010 a'r raddfa o gyfraniadau i'w hargymell gan yr Actiwari i'w weithredu o 1/4/2011. Cynhwyswyd amcan pwyllog o'r cynnydd i gyfraniadau yn rhagolygon tair blynedd yr Awdurdod fel y'i cyflwynwyd yng nghyfarfod yr Awdurdod ar 9 Rhagfyr 2009.
Mae'r Awdurdod wedi gwneud rhai gwelliannau i'w fframwaith rheoli perfformiad, fodd bynnag gellir cyflawni rhagor o welliannau. Y meysydd ar gyfer eu gwella ymhellach yw: 1. Er bod gan rai amcanion gamau gweithredu sy'n bodloni meini prawf CAMPUS (Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrol), ni ellir ystyried nifer o'r camau yn y ffordd honno. Mae hynny'n ei gwneud yn anodd i'r Awdurdod ddangos ei fod wedi cyflawni'r amcanion a osododd ar gyfer ei hun. 2. Mae angen gwella'r dull o adrodd am berfformiad trwy ddefnyddio ystod ehangach o DP lleol a chenedlaethol. 3. Gellir gwella data cymharol â'r ddau barc cenedlaethol arall ynghyd â sefydliadau perthnasol eraill er mwyn arddangos gwelliant yr Awdurdod o ran perfformiad.	1. Yn ystod 2009-10, ymgymerodd yr Awdurdod ag adolygiad o'i amcanion corfforaethol. Lluniwyd cyfres newydd o Ganlyniadau Blaenoriaeth ar gyfer 2010-2013 a gefnogir gan ystod o Amcanion Corfforaethol sy'n GAMPUS. Mae'r Awdurdod nawr wedi sicrhau bod y camau gweithredu blynyddol a nodir yn y Cynllun Gwaith Corfforaethol yn cefnogi'r Canlyniadau Blaenoriaeth a'r Amcanion Corfforaethol a'u bod hwythau'n GAMPUS. 2. Fel rhan o ddatblygiad parhaus Ffynnon, mae'r Awdurdod wrthi'n cytuno ar nifer o DP AD, ariannol a TGCh gyda'r ddau Barc arall fydd yn sicrhau meincnodi effeithiol. Bydd hynny'n ychwanegu at y dangosyddion perfformiad craidd sydd eisoes yn cael eu casglu gan y tri Pharc yng Nghymru ac a fydd yn golygu y bydd yn bosibl dadansoddi'n well ar draws y Parciau. Bwriedir adrodd i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau'n rheolaidd ynghylch y canlyniadau. 3. Gweler y sylw uchod

4. Gellir gwella adeiledd y Cynllun Gwella â chysylltiadau gwell rhwng gwahanol elfennau'r ddogfen. Er enghraifft, mae rhannau penodol yn y Cynllun sydd a wnelo ag amcanion, gwybodaeth ariannol, gwybodaeth am berfformiad, mesurau a thargedau. Fodd bynnag, byddai gan ddarllenydd y ddogfen well dealltwriaeth o berfformiad yr Awdurdod petai cysylltiadau penodol rhwng gwahanol rannau'r ddogfen.	4. Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn gosod rhwymedigaeth ar awdurdodau i gyhoeddi eu hamcanion gwella ar ddechrau'r flwyddyn ariannol ac i wybodaeth yr ail wedd gael ei chyhoeddi cyn 31 Hydref yn ystod y flwyddyn ariannol ar ôl y flwyddyn y mae'r wybodaeth yn berthnasol iddi. Bydd hyn yn golygu newid ffurf y Cynllun Gwella, yn unol â'r trafodaethau a gafwyd gyda Swyddfa Archwilio Cymru.

Y systemau rheolaeth fewnol a nodir yn y ddogfen hon yw'r rhai sydd wrth wraidd ein harferion a'n prosesau rheoli. Mae'r Uwch Dîm Rheoli wedi cytuno ar y camau i'w cymryd i fynd i'r afael â'r materion a bennwyd ac i sicrhau gwelliant parhaus i'r systemau sydd mewn lle.

Fe'n cynghorwyd ynghylch goblygiadau canlyniadau'r adolygiad ac effeithiolrwydd y system o reolaeth fewnol. Hyd y gwyddom, mae'r amgylchedd rheolaeth fewnol a bennwyd uchod wedi'i weithredu'n effeithiol yn ystod y flwyddyn.

	Aneurin Phillips		**E. Caerwyn Roberts**
	Prif Weithredwr		**Cadeirydd**
Dyddiad:	**23ain Mehefin 2010**		**23ain Mehefin 2010**

RHESTR TERMAU

CRONIADAU

Y cysyniad fod incwm a gwariant yn cael ei gydnabod fel y mae'n cael ei ennill neu ei wneud, nid pan fo arian yn cael ei dderbyn neu ei dalu.

TÂL CYFALAF

Taliad i gyfrifon refeniw gwasanaeth i adlewyrchu cost yr asedau sefydlog a ddefnyddir i ddarparu gwasanaeth.

GWARIANT CYFALAF

Gwariant ar gaffael ased sefydlog neu wariant sy'n ychwanegu at werth ased sefydlog presennol, nid ei gynnal yn unig.

ASEDAU CYMUNEDOL

Asedau y mae'r Awdurdod yn bwriadu eu dal am byth, nad oes ganddynt oes ddefnyddiol y gellir ei phennu, ac sydd o bosib â chyfyngiadau ar gael gwared â hwy.

GWARIANT REFENIW A ARIENNIR O GYFALAF O DAN STATUD

Gwariant a ddyrennir fel cyfalaf i bwrpasau ariannu ond nad yw'n arwain at i wariant gael ei gario yn y fantolen fel ased sefydlog . Yn gyffredinol grantiau yw'r rhain a gwariant ar eiddo nad yw'n perthyn i'r Awdurdod.

CYNLLUN BUDDIANT DIFFINIEDIG

Cynllun pensiwn ble bo rheolau'r cynllun yn diffinio'r buddiannau'n annibynnol ar y cyfraniadau sy'n daladwy, ac nad yw'r buddiannau'n uniongyrchol gysylltiedig â buddsoddiadau'r cynllun.

PRYDLES GYLLID

Prydles sy'n trosglwyddo holl risgiau a gwobrwyon perchnogaeth ased sefydlog i'r prydleswr.

PRYDLES WEITHREDOL

Prydles heblaw prydles ariannol

ASEDAU SEFYDLOG

Asedau diriaethol sy'n rhoi buddiannau i'r awdurdod a'r gwasanaethau y mae'n ddarparu am ragor nag un flwyddyn.

OES DDEFNYDDIOL

Y cyfnod y mae'r awdurdod yn cael buddiannau o ddefnydd ased sefydlog.

BYRFODDAU

CIPFA	Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifo
LASAAC	Local Authority (Scotland) Accounts Advisory Committee
FRS	Safon Adrodd Ariannol
CAPC	Cymdeithas Awdurdodau Parciau Cenedlaethol